
Grŵp Cymoedd i'r Arfordir 2026-2031

# Ein Cynllyn



Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pwy ydym ni | 01 |
| Un grŵp. Un pwrpas. Cyfrifoldeb a rennir. | 04 |
| Ein strategaethau | 06 |
| Pobl a Diwylliant | 08 |
| Cartrefi a Chymunedau | 20 |
| Profiad Cwsmeriaid | 32 |
| Digidol a Thechnoleg | 42 |
| Cryfder Ariannol | 56 |


# Pwy ydym ni, a beth rydym ni'n ei wneud

**Rydym yn gymdeithas dai sydd â'n gwreiddiau mewn cymunedau ac sy'n adeiladu ar gyfer y dyfodol.**

Rydym yn darparu cartrefi, yn buddsoddi mewn lleoedd, ac yn cynnig gwasanaethau sy'n helpu pobl i deimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cefnogi, ac yn falch o ble maent yn byw.

Mae dros 20 mlynedd wedi mynd heibio ers i ni gael ein sefydlu fel y trosglwyddiad gwirfoddol cyntaf ar raddfa fawr o gartrefi awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2003, ac erbyn hyn mae ein rôl yn mynd y tu hwnt i ddarparu tai.

Rydym yn helpu i greu'r amodau i bobl, teuluoedd a chymunedau symud ymlaen gyda hyder a chyfleoedd.

Drwy strwythur ein grŵp, rydym yn dod â gwaith datblygu, cynnal a chadw, a chyfrifoldeb hirdymor at ei gilydd - gan weithio ar y cyd i ddarparu cartrefi a chefnogi cymunedau am genedlaethau.

Rydym hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o adfywio a chreu lleoedd ar draws coridor yr M4 yn ne Cymru, gan weithio gyda phartneriaid i roi bywyd newydd i gymunedau, ac rydym yn falch o fod yn ganolog i'r gwaith o drawsnewid canol tref Pen-y-bont ar Ogwr drwy sefydlu cartref newydd ein Grŵp yn adeilad nodedig Wyndham House.

Fel cwmni aeddfed, rydym yn barod i ddechrau pennod newydd o dwf ond bydd ein gwreiddiau bob amser ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gyda phwrpas cymdeithasol cryf, a chyfrifoldeb a rennir.

**Un grŵp. Un pwrpas.
Cyfrifoldeb a rennir.**



## Ein gweledigaeth

Adeiladu cartrefi a chryfhau cymunedau — heddiw ac am genedlaethau i ddod.

## Ein gwerthoedd

### Rydym yn gwerthfawrogi pobl

Gweld potensial y bobl rydym yn gweithio gyda nhw ac yn eu gwasanaethu

### Rydym yn meddwl yn wahanol

rhoi cynnig ar bethau newydd i wella bywydau a gyrfaoedd pobl

### Mae gennym ddewrder i weld pethau i'w terfyn

siarad, gweithio a gweithredu gydag argyhoeddiad, cryfder a phenderfyniad.





## Ein pwrpas

Darparu cartrefi a buddsoddi yn y lleoedd a'r cymunedau a wasanaethwn.

## Ein huchelgais

Ein huchelgais yw cynyddu ein capasiti ariannol, a datblygu ein harweinyddiaeth a gallu ein cydweithwyr er mwyn i ni allu gwneud y canlynol;

- **Tyfu'r gwasanaethau a gynigiwn**
- **Adfywio ein cymunedau i'n galluogi i**
- **Sbarduno** gwell boddhad ymysg cwsmeriaid a chydweithwyr

# Un grŵp. Un pwrpas. Cyfrifoldeb a rennir.

**Rydym yn gweithredu fel grŵp â phwrpas cyffredin.**

Mae pob rhan o'r sefydliad yn chwarae rhan benodol yn y gwaith o ddarparu cartrefi a chefnogi'r cymunedau a wasanaethwn.

Gyda'n gilydd, rydym yn dod â gwaith datblygu, cynnal a chadw, a chyfrifoldeb hirdymor ynghyd mewn un system gydlynol.

Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast

### Cymoedd i'r Arfordir

Y gymdeithas dai — darparu cartrefi ac yn gyfrifol yn yr hirdymor am y cymunedau a wasanaethwn.

Sylfaen

### Sylfaen

Ein cwmni datblygu — mae'n creu cartrefi newydd ar gyfer ein cymunedau.

Llanw

### Llanw

Ein cwmni cynnal a chadw — mae'n cynnal ac yn gwella'r cartrefi mae pobl yn byw ynddynt heddiwy.

**Gyda'n gilydd, rydym yn adeiladu, yn cynnal a chadw, ac yn ysgwyddo cyfrifoldeb hirdymor dros gartrefi a chymunedau.**



# Ein pennod nesaf

## O wasanaeth i effaith

Mae darparu cartrefi diogel sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda yn dal yn hanfodol. Ond mae ein huchelgais yn ehangach: sicrhau bod pob cartref yn llwyfan ar gyfer sefydlogrwydd, cyfle a bywyd ffyniannus.

- **Byddwn yn symud y tu hwnt i waith cynnal a chadw adweithiol tuag at ddull 'cartref cyfan' cyfannol, gan ddefnyddio data i ragweld ac atal problemau cyn iddynt effeithio ar ein cwsmeriaid.**
- **Byddwn yn meddwl yn wahanol er mwyn mynd i'r afael â heriau stoc etifeddol, gan sicrhau bod ein cartrefi'n ddiogel, yn gynnes ac yn sych, ond hefyd yn barod ar gyfer y dyfodol ac yn garbon niwtral.**
- **Byddwn yn gwrando ar lais y cwsmer i lunio gwasanaethau sy'n adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf i'n cymunedau, gan sicrhau ein bod yn gweithio gydag achosion, ac nid dim ond symptomau.**

## O'r traddodiadol i'r blaengar

Rydym yn cryfhau ein diwylliant, ein gallu a'n systemau digidol er mwyn i ni allu ymateb yn gyflymach, dysgu o wybodaeth, a gwella'r ffordd rydym yn gwasanaethu cwsmeriaid yn barhaus.


- **Byddwn yn mabwysiadu dull 'dim drws anghywir', gan roi'r hyder a'r adnoddau i bob cydweithiwr feithrin perthynas â chwsmeriaid beth bynnag fo'i rôl.**
- **Byddwn yn defnyddio deallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio i wneud tasgau gweinyddol yn haws, gan ryddhau ein cydweithwyr i ddarparu momentau calonogol a syniadau gwreiddiol.**
- **Byddwn yn meithrin diwylliant lle mae ymddiriedaeth ac atebolrwydd yn uchel, lle rydym ni'n dathlu arloesedd, a lle nad oes ofn arnom 'fethu'n gyflym' er mwyn dysgu a gwella.**

## O ddarparwr lleol i bartner rhanbarthol

Mae ein gwreiddiau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac rydym yn ymestyn ein cyrhaeddiad ac yn defnyddio ein proffiad i gefnogi cartrefi a chymunedau ar draws daearyddiaeth ehangach.

- **Byddwn yn ceisio meithrin partneriaethau rhanbarthol ag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai eraill i gyflawni mwy dros Gymru, gan chwarae rhan allweddol yn y gwaith o adfywio a chreu lleoedd.**
- **Byddwn yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n cael ei arwain gan ddatblygiadau, gan adeiladu cartrefi carbon sero net newydd ac yn sicrhau safleoedd datblygu yn strategol er mwyn diwallu anghenion o ran tai yn y dyfodol.**
- **Byddwn yn defnyddio strwythur ein grŵp i adeiladu, cynnal a chadw, a chymryd cyfrifoldeb hirdymor dros leoedd ffyniannus.**

# Ein strategaethau



## Pobl a Diwylliant

Nod ein Strategaeth Pobl a Diwylliant yw meithrin gweithle iach, cynhwysol a chadarnhaol lle mae cydweithwyr yn ffynnu. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau bod y bobl iawn yn y rolau iawn i sicrhau canlyniadau rhagorol i gwsmeriaid. Capasiti, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Gallu, Sylw i Gwsmeriaid, Atebolrwydd, Arwain a Rheoli, a Llesiant, gyda diwylliant grŵp cyson o garedigrwydd, cynhwysiant a pharch yn sail i'r rhain i gyd. Mae'r dull hwn yn ceisio sicrhau lefel uchel o foddhad ymysg cydweithwyr a grymuso staff i wneud gwahaniaeth i gwsmeriaid a chymunedau.

## Cartrefi a Chymunedau

Nod ein Strategaeth Cartrefi a Chymunedau yw darparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n ddiogel, yn gynnes ac yn sych, gan adfywio cymunedau i wella boddhad cwsmeriaid a chydweithwyr. Drwy flaenoriaethu llais cwsmeriaid, defnyddio data i wneud penderfyniadau callach, a buddsoddi'n ddoeth mewn cartrefi carbon niwtral sy'n barod ar gyfer y dyfodol, mae'r strategaeth yn ceisio optimeiddio perfformiad asedau a symud tuag at waith cynnal a chadw rhagweithiol sydd wedi'i gynllunio. Bydd y dull cyfannol hwn yn sicrhau lleoedd dymunol i fyw ac yn cefnogi Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru sy'n well.

## Profiad Cwsmeriaid

Mae ein Strategaeth Profiad Cwsmeriaid yn canolbwyntio ar ymddiriedaeth, caredigrwydd a dyrchafu llais cwsmeriaid i ddarparu gwasanaethau tai rhagorol a meithrin cymunedau gwydn. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cynhwysol, pwrpasol, rhagweithiol y gellir ymddiried ynddynt dan arweiniad y gymuned. Drwy wrando ar gwsmeriaid, meithrin partneriaethau cryf, a chroesawu arloesedd, nod Cymoedd i'r Arfordir yw gwella boddhad cwsmeriaid a chreu amgylcheddau byw cadarnhaol a chefnogol.

## Digidol a Thechnoleg

Nod ein Strategaeth Ddigidol a Thechnoleg yw gwella bywydau cwsmeriaid a phrofiadau cydweithwyr drwy ddefnyddio technoleg strategol a manteisio ar ddata. Mae'n canolbwyntio ar adeiladu sylfeini cadarn, diogel a chywir, gan flaenoriaethu penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata ac atebion digidol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Mae'r strategaeth yn pwysleisio awtomatiaeth, egwyddorion diogel drwy ddylunio, a defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn ffordd gyfrifol er mwyn cyflymu arloesedd ar yr un pryd â sicrhau hygyrchedd i bob defnyddiwr. Mae'r dull hwn yn ceisio datgloi galluoedd dynol, dyrchafu profiadau, a sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau gwybodus er twf y sefydliad.

## Cryfder Ariannol

Nod ein Strategaeth Cryfder Ariannol yw cynyddu capasiti ariannol er mwyn darparu cartrefi gwell a newydd, gan flaenoriaethu llesiant cwsmeriaid ac adfywio cymunedol. Gan wynebu heriau etifeddol, mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gynyddu refeniw drwy ffrydiau incwm amrywiol, mabwysiadu dull sy'n cael ei arwain gan ddatblygiadau, gwella effeithlonrwydd ariannol drwy benderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata a chaffael cadarn, a sicrhau cyllid amrywiol. Mae'r dull deuol hwn yn pwysleisio cyfrifoldeb ariannol, arloesedd, a phartneriaethau strategol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor a darparu cartrefi dymunol.

Strategaeth

# Pobl a Diwylliant

## Rydym yn credu mewn pobl. Rydym yn credu ynoch chi.



# Strategaeth Pobl a Diwylliant 2026-2031

## Cyd-destun

Mae ein cwsmeriaid wrth galon pob penderfyniad rydym ni'n ei wneud fel busnes. Er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel a phrofiad rhagorol i gwsmeriaid mae'n rhaid i ni wrando ar ein cwsmeriaid a'n cymunedau i sicrhau ein bod yn gweithio gyda nhw i ddatblygu a darparu'r gwasanaethau y mae arnynt eu heisiau a'u hangen, pan fydd eu hangen arnynt, ac yn y lleoedd y maent eu hangen.

Ar ôl i ni gael y ddealltwriaeth honno, mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym y nifer briodol o gydweithwyr sydd â'r sgiliau, y profiad, y gwerthoedd a'r ymddygiad priodol i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

I wneud hynny, mae angen i ni sicrhau bod lefelau uchel o foddhad ymysg ein cydweithwyr gan ein bod yn gwybod y bydd cydweithwyr sy'n ddiogel ac yn hapus yn ymdrechu i ddarparu gwell canlyniadau i'r cwsmer. Wrth galon hynny y mae cydweithwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

**"Ein nod yw meithrin diwylliant o berthyn, pwrpas ac ymdrech ar y cyd lle gall cydweithwyr adeiladu gyrfa ac ar yr un pryd wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl eraill."**

Yn ogystal ag ystyried y cyd-destun mewnol, dylid hefyd ystyriedy ffactorau allanol a fydd yn effeithio ar ein dull o ddatblygu diwylliant lle gall cydweithwyr ffynnu, lle mae cwsmeriaid wrth galon popeth a wnawn, ac ar yr un pryd sicrhau bod y sefydliad yn sefydlog ac yn gynaliadwy'n ariannol.

**Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (ond nid yw hon yn rhestr gyflawn):**

- Dylanwadau geowleidyddol
- Datblygu deallusrwydd artiffisial ac awtomatiaeth
- Cynnydd mewn costau i gyflogwyr, yn enwedig y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o fis Ebrill 2025 ymlaen
- Disgwyliadau o ran gweithio o bell a gweithio hybrid a chynnydd mewn mandadau dychwelyd i'r swyddfa
- Newidiadau mawr i gyfreithiau ac arferion cyflogaeth a gynigiwyd gan y llywodraeth Lafur yn y Bil Hawliau Cyflogaeth 2024
- Lefelau cynyddol o salwch tymor hir
- "Prinder sgiliau sy'n peri gofid" a dros draean o gyflogwyr yn disgrifio swyddi "anodd eu llenwi" (Labour Market Outlook CIPD, Hydref 2024)

## Ein huchelgais

Mae'r Strategaeth Pobl a Diwylliant yn nodi uchelgais a dull o sicrhau lefelau uchel o foddhad ymysg cydweithwyr a diwylliant iach, cynhwysol a chadarnhaol yn y gweithle sy'n galluogi ac yn grymuso ein cydweithwyr i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n cwsmeriaid a'n cymunedau.

Er mwyn cwrdd â'r heriau yn fewnol ac yn allanol a chynyddu boddhad ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr, mae'n rhaid i Cymoedd i'r Arfordir sicrhau bod gennym y bobl iawn, yn y rolau iawn, yn y niferoedd iawn, yn gwneud y pethau iawn.

## Ein dull gweithredu

Gan ganolbwyntio ar gryfderau ein cydweithwyr, byddwn yn eu galluogi a'u grymuso i ddarparu rhagoriaeth i gwsmeriaid, sy'n canolbwyntio ar garedigrwydd, empathi a pharch, gan leihau gwahaniaethu ac anghydraddoldeb.

Byddwn yn cefnogi hyn drwy feithrin diwylliant o benderfyniadau a gweithredoedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a datblygu "dull dim drws anghywir" lle mae cydweithwyr yn meddu ar yr adnoddau a'r hyder i feithrin perthynas â chwsmeriaid beth bynnag fo'u rolau.

Byddwn yn canolbwyntio ar ddiwylliant sy'n seiliedig ar ein pwrpas cyffredin a'n hymrwymiad i ymdrech ar y cyd.

Bydd ein diwylliant yn canolbwyntio ar atebolrwydd unigolion a thimau lle mae pobl yn cymryd perchnogaeth ac yn ymfalchïo mewn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cwsmeriaid a'n cymunedau a'n rheolwyr ar gyfer eu timau.

## Ein blaenoriaethau


Byddwn yn cefnogi ein cydweithwyr, a'n cwsmeriaid yn eu tro, drwy ganolbwyntio ar saith blaenoriaeth, gyda llinyn aurdiwylliant ein grŵp wedi'i gwreiddio drwyddi draw.

Wrth wneud hynny, byddwn yn paratoi ein hunain i gyflawni ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer twf a sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cydweithwyr, ein cwsmeriaid a'n cymunedau.

Mae themâu trawsbynciol drwy'r strategaeth gyfan. Fodd bynnag, er mwyn bod yn glir, bydd ein huchelgeisiau ar gyfer Pobl a Diwylliant yn cael eu cyflawni drwy ganolbwyntio ar y saith blaenoriaeth ganlynol:

- Capasiti
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Gallu
- Sylw i Gwsmeriaid
- Atebolrwydd
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- Llesiant

Bydd canlyniadau ac elfennau i'w cyflawni penodol yn addasu wrth i ni dyfu.



## Ein llinyn aur: Diwylliant ein grŵp

**Wrth i ni geisio ehangu'r grŵp, gan greu rhagor o is-gwmnïau, diwylliant ein grŵp fydd y llinyn aur sy'n ein clymu gyda'n gilydd.**

Drwy gyfnod o dwf, bydd diwylliant ein grŵp yn angori'r busnesau unigol, gan ein trwytho yn ein pwrpas, ein gwerthoedd a'n hymddygiad cyffredin.

Rydym yn cydnabod y bydd gwahaniaethau o ran dull gweithredu wrth ddathlu'r cryfderau sy'n gysylltiedig â hunaniaeth pob busnes a sicrhau ein bod yn cymryd yr amser sy'n angenrheidiol i rannu dysg ac arferion gorau.

Bydd diwylliant ein grŵp yn seiliedig ar y pethau nad ydynt yn agored i drafodaeth, sef caredigrwydd, cynhwysiant a pharch a'n hymrwymiad llwyr i wella canlyniadau i'n cwsmeriaid a'r cymunedau ehangach.



CAPASITI
CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT
GALLU
SYLW I GWSMERIAID
ATEBOLRWYDD
ARWAIN A RHEOLI
LLESIANT



### 01: Capasiti

**"Bydd gennym y nifer iawn o bobl yn y rolau iawn i'n cefnogi, nid yn unig nawr ond wrth i ni baratoi ar gyfer twf a'i gyflawni."**

Gallwn ddenu a dal gafael ar y cydweithwyr hynny drwy fod yn gyflogwr delfrydol. Byddwn yn canolbwyntio mwy ar gynllunio'r gweithlu i gynnwys capasiti nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn flaengar o ran ein hanghenion pobl a sgiliau ac yn aros ar flaen y gad, gan archwilio opsiynau ar gyfer gwella systemau, awtomatiaeth, deallusrwydd artiffisial a gwasanaethau a rennir.

Byddwn yn sicrhau bod strwythurau ein cyfarwyddiaeth a'n tîm yn addas i'r diben nawr ac i'n cefnogi drwy'r cyfnod twf. Byddwn yn canolbwyntio ar ystwythder ac ymatebolrwydd ac yn rhoi cyfleoedd i'n cydweithwyr dyfu a datblygu.

Byddwn yn greadigol â'n dulliau o reoli cyfnodau brig a chyfnodau tawel o ran y galw am adnoddau pobl ac yn cynnig rhagolygon cyflogaeth diogel a sefydlog i'n cydweithwyr.

**Sut mae llwyddiant yn edrych:**

- Cynllun wedi'i ddiffinio ar gyfer y gweithlu
- Polisi gwobrwyo a chydnabod wedi'i ddiweddaru
- Adolygu a gwella'r gwobrwyon a gynigir gennym yn barhaus
- Cynnydd yn nifer y bobl a gyflogir yn llwyddiannus
- Recriwtio prentisiaid a graddedigion yn barhaus
- Gostyngiad yn nifer y swyddi "anodd eu llenwi"
- Gostyngiad mewn trosiant gwirfoddol a ddim uwch na chyfartaledd y sector

**Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:**

- **Denu a dal gafael ar gydweithwyr o safon uchel drwy fod yn gyflogwr delfrydol –** Byddwn yn datblygu brand cyflogwr lle byddwn yn dod yn gyflogwr delfrydol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a thu hwnt. Byddwn yn cynnig pecyn gwobrwyo cyflawn deniadol ac yn meithrin enw da am sicrhau boddhad cydweithwyr a chwsmeriaid.
- **Datblygu cynllun wedi'i ddiffinio ar gyfer y gweithlu sy'n ystyried capasiti nawr ac yn y dyfodol** – Byddwn yn datblygu cynllun gweithlu sy'n edrych tua'r dyfodol dros gyfnod o dair blynedd er mwyn i ni allu cynllunio'n well ar gyfer ein hanghenion o ran sgiliau a phobl, gan ystyried prinder sgiliau cenedlaethol a gweithlu sy'n heneiddio. Byddwn yn gweithio'n agos gydag arweinwyr er mwyn rhagweld y galw ac yn meithrin partneriaethau strategol gyda darparwyr addysg a hyfforddiant i adeiladu ar ein prentisiaethau a'n rhaglenni i raddedigion presennol.
- **Sicrhau bod strwythurau ein cyfarwyddiaeth a'n tîm yn addas i'r diben nawr ac wrth i ni symud drwy ein cyfnod twf** – Byddwn yn gweithio'n agos gydag arweinwyr i sicrhau bod cyfarwyddiaethau a thimau wedi'u strwythuro'n dda a'u bod yn gallu cyflawni ein huchelgais o ran twf. Byddwn yn cefnogi hyblygrwydd ac ymatebolrwydd ar yr un pryd â chynnig cyfleoedd i gydweithwyr ddatblygu eu sgiliau a'u profiad drwy secondiadau, cymorth prosiectau, a chymryd rhan mewn cyfleoedd eraill i ddatblygu.

## 02: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

**"Byddwn yn parhau i ddatblygu diwylliant sydd â'n hymdrech ar y cyd a'n pwrpas cyffredin yn ganolog iddo, ac sydd wedi'i seilio ar garedigrwydd a pharch, gan ddathlu amrywiaeth a sicrhau cyfle cyfartal."**

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein hagwedd at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer cydweithwyr yn cyd-fynd â'n cynlluniau ar gyfer cwsmeriaid. Byddwn yn defnyddio data'n effeithiol ac yn ymdrechu i ddarparu canlyniadau personol i gydweithwyr ar yr un pryd â chynnal tegwch a chysondeb ar draws y grŵp.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Tystiolaeth barhaus o gynnydd yn erbyn ein Map Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Gwell lefelau casglu data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gan gydweithwyr a ddefnyddir i ddatblygu rhaglenni gwella wedi'u targedu sy'n ymwneud ag amrywiaeth
- Gwell boddhad/ adborth ymysg cydweithwyr ar gynhwysiant a pherthyn
- Cydweithwyr yn ymgysylltu mwy â mentrau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant e.e. Caffi Menopos, Rhwydwaith Teuluoedd Cynhwysol, ac ati.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Gwella teimladau o berthyn a phwrpas cyffredin cydweithwyr –** Rydym am i bob un o'n cydweithwyr deimlo ei fod yn perthyn i'r sefydliad a deall bod gan bob un ohonom rôl i'w chwarae o ran cyflawni ein pwrpas.Rydym yn cydnabod unigoliaeth, ond ar yr un pryd rydym yn dathlu'r holl ddarnau sy'n dod at ei gilydd i greu'r darlun cyfan.
- **Sicrhau cyfle cyfartal ond dathlu gwahaniaethau hefyd –** Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac yn sicrhau bod y rhai sydd dan anfantais yn cael y modd i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i eraill. Rydym yn dymuno dathlu amrywiaeth a herio stigma. Rydym eisiau i bawb ddeall a gwerthfawrogi sut mae amrywiaeth yn ein gwneud yn gryfach ac y gallwn ddysgu ac elwa ar wahanol gefndiroedd a phrofiadau ein gilydd.
- **Croesawu syniadau newydd –** Os bydd ein cwsmeriaid neu gydweithwyr yn nodi meysydd lle gellir gwneud newidiadau i wneud ein diwylliant yn fwy cynhwysol, byddwn yn croesawu ac yn annog y rhain a byddwn yn mabwysiadu agwedd o beth sy'n gryf yn hytrach na beth sydd o'i le. Rydym yn deall mai dim ond drwy roi cynnig ar syniadau newydd y gellir gwneud newidiadau ystyrlon a phan fyddwn yn methu, rydym yn methu'n gyflym ac yn dysgu sut i wella. Byddwn yn creu diwylliant sy'n ddiogel yn seicolegol lle gall arloesedd ffynnu.





## 03: Gallu

**"Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gan ein cydweithwyr y sgiliau a'r adnoddau i'w galluogi i gyflawni hyd eithaf eu gallu."**

Er mwyn gwireddu ein huchelgeisiau, mae angen i ni sicrhau bod gennym y gallu sy'n ofynnol i gyflawni ein hymrwymiadau corfforaethol presennol yn ogystal â'r rhai rydym yn bwriadu eu cyflawni drwy gydol cyfnod twf ein Cynllun Corfforaethol.

Rydym wedi ymrwymo i leihau a dileu prinder sgiliau dros amser; byddwn yn cynnal dadansoddiad effeithiol o'r bylchau rhwng ein hanghenion nawr ac yn y dyfodol ac yn datblygu atebion creadigol i ddatblygu ein cydweithwyr yn unol â hynny.

Byddwn yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'n cydweithwyr ddatblygu a thyfu. Rydym yn sicrhau bod setiau sgiliau'n cyd-fynd â'i gilydd er mwyn cyflawni'r pum colofn strategol. Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i nodi pwyntiau methiant unigol ac yn sicrhau ein bod yn cefnogi darpariaeth amgen ar gyfer y rolau a chyfrifoldebau allweddol hyn.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Cynlluniau datblygu personol ar gael i bob cydweithiwr
- Rhagor o fuddsoddiad mewn datblygiad cydweithwyr
- Rhagor o secondiadau a dyrchafiadau mewnol
- Gwell adborth ar ein cyfleoedd dysgu a datblygu
- Dulliau mwy creadigol o ddatblygu y tu allan i gyrsiau hyfforddiant e.e. cysgodi, hyfforddi, mentora, cymunedau ymarfer.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Gwneud yn siŵr bod gan bobl y sgiliau a'r adnoddau i'w galluogi i gyflawni hyd eithaf eu gallu –** Byddwn yn cynyddu ein darpariaeth dysgu a datblygu ac yn cynnig cyfuniad o gyfleoedd datblygu gorfodol a dewisol drwy amrywiaeth o ffyrdd ac nid dim ond drwy ddulliau 'sialc a siarad' traddodiadol neu orddibyniaeth ar e-ddysgu. Byddwn yn meddwl yn greadigol ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cysgodi swyddi, hyfforddi, mentora, meithrin tîm, cymryd rhan mewn prosiectau, cymunedau ymarfer a myfyrdod personol.
- **Sicrhau bod setiau sgiliau'n cyd-fynd â'i gilydd er mwyn cyflawni'r pum colofn strategol –** Rydym yn deall bod adnoddau'n gyfyngedig ac felly byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd datblygu sy'n cyd-fynd â'r pum colofn strategol. Ni fyddwn yn ofni gwneud penderfyniadau anodd, a byddwn yn helpu cydweithwyr i ddeall y bydd canolbwyntio ar y pum colofn strategol yn ei dro yn arwain at fwy o foddhad ymysg cwsmeriaid a chydweithwyr.
- **Rhoi'r adnoddau, yr amser a'r lle i gydweithwyr allu canolbwyntio ar eu datblygiad –** Byddwn yn gweithio gydag arweinwyr a rheolwyr i sicrhau y rhoddir mwy o flaenoriaeth i ddatblygiad cydweithwyr ac nad yw'n cael ei weld fel rhywbeth "braf ei gael". Byddwn yn edrych ar atebion creadigol i roi'r amser a'r lle sydd eu hangen ar gydweithwyr i ganolbwyntio ar eu datblygiad e.e. cyflwyno 'diwrnodau dysgu' neu 'wythnosau dysgu' dynodedig.

## 04: Sylw i Gwsmeriaid

**"Rydym yn datblygu diwylliant lle gall cydweithwyr ganolbwyntio ar ddarparu rhagoriaeth i'n cwsmeriaid sy'n canolbwyntio ar garedigrwydd, empathi a pharch."**

Rydym yn gwneud hyn drwy feithrin diwylliant o benderfyniadau a gweithredoedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a datblygu "dull dim drws anghywir" lle mae cydweithwyr yn meddu ar yr adnoddau a'r hyder i feithrin perthynas â chwsmeriaid beth bynnag fo'u rôl. Rydym yn rhoi llais i'n cydweithwyr yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n eu galluogi i eiriol dros gwsmeriaid a chymunedau.

Rydym yn creu diwylliant lle mae cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu galluogi a'u grymuso, ac mae hynny'n cefnogi proses o wneud penderfyniadau effeithiol ac yn lleihau biwrocratiaeth ddiangen.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Datblygu diwylliant o benderfyniadau a gweithredoedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer –** Byddwn yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ar draws ein grŵp gan gynnwys gwasanaethau rheoli tai ac incwm effeithlon ac effeithiol, gwasanaethau rheoli asedau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac ymateb i geisiadau am waith atgyweirio, gwasanaethau adfywio ac ystadau cymunedol, a datblygiadau o ansawdd uchel yn y cymunedau cywir gan sicrhau bod y berthynas â'n cwsmeriaid yn un rhwng oedolion gyda chefnogaeth uchel a her uchel.
- **Datblygu "dull dim drws anghywir" lle mae cydweithwyr yn meddu ar yr adnoddau a'r hyder i feithrin perthynas â chwsmeriaid beth bynnag fo'u rôl –** Rhoddir yr adnoddau, y sgiliau a'r wybodaeth i gydweithwyr allu ymgysylltu â chwsmeriaid, datblygu perthynas effeithiol a meithrin ymddiriedaeth ni waeth ble maent yn gweithio yn y grŵp.
- **Sefydlu Bwrdd Prosiectau Cydweithwyr a fydd yn dyrchafu lleisiau cydweithwyr –** Byddwn yn datblygu Bwrdd Prosiectau Cydweithwyr gyda chynrychiolaeth briodol i sicrhau bod gan gydweithwyr lais yn y broses o wneud penderfyniadau a fydd, yn ei dro, yn dyrchafu llais ein cwsmeriaid.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Gwell boddhad/ adborth ymysg cydweithwyr ar y gallu i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i gwsmeriaid
- Tystiolaeth barhaus o gynnydd yn erbyn ein Map Diwylliant
- Gwell ymgysylltiad â'r Bwrdd Prosiectau Cydweithwyr
- Rhoi dull 'fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni' ar waith, yn enwedig mewn perthynas ag awgrymiadau ar gyfer gwella'r gallu i gyflenwi gwasanaethau
- Mwy o foddhad ymysg cwsmeriaid



## 05: Atebolrwydd

**"Sicrhau ein bod yn hybu diwylliant lle mae ymddiriedaeth ac atebolrwydd yn uchel."**

Rydym yn mynnu atebolrwydd unigolion a thimau lle mae pobl yn cymryd perchnogaeth ac yn ymfalchïo yn eu perfformiad a rheolwyr ar gyfer eu timau. Mae gan dimau a chydweithwyr amcanion sydd wedi'u diffinio'n dda lle mae'r canlyniadau'n glir ac yn cefnogi'r Cynllun Corfforaethol.

Rydym yn mynd i'r afael â gweithio mewn seilos ac nid ydym yn goddef meddylfryd "nid fy ngwaith i ydy hynny".

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Mae gan bob cydweithiwr amcanion clir sy'n gysylltiedig â'r pum colofn strategol sy'n cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd
- Mae cydweithwyr yn deall fod atebolrwydd uchel yn dod law yn llaw ag ymddiriedaeth uchel, ac maent yn gallu disgrifio beth mae hynny'n ei olygu yn eu rôl
- Sicrwydd bod tanberfformio neu wyro oddi wrth ein gwerthoedd a'n hymddygiad yn cael ei olrhain yn gyson ar draws y grŵp
- Mwy o foddhad/ adborth ymysg cydweithwyr
- Mwy o foddhad ymysg cwsmeriaid

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Hybu diwylliant lle mae ymddiriedaeth ac atebolrwydd yn uchel –** Byddwn yn parhau i ddatblygu diwylliant o ymddiriedaeth uchel lle mae cydweithwyr yn cael eu hannog a'u grymuso i arloesi, datrys problemau a gwneud penderfyniadau.

  Rydym yn creu amgylchedd lle croesewir adborth neu her iach a pharchus gyda'r bwriadau gorau ac rydym yn cyfathrebu mewn ffordd agored a thryloyw.

  Mae hyn yn gweithio law yn llaw ag atebolrwydd uchel lle mae cydweithwyr yn cymryd perchnogaeth dros y penderfyniadau maent wedi'u gwneud, yn gallu dangos bob amser bod ein cwsmeriaid a'n gwerthoedd wrth galon y penderfyniadau hynny, ac yn gyfforddus wrth gyfnewid adborth agored a gonest gan ganolbwyntio ar wella'n barhaus.
- **Mynd i'r afael â thanberfformio a/ neu wyro oddi wrth ein gwerthoedd a'n hymddygiad –** Rydym am fod yn dryloyw, yn deg ac yn garedig wrth ymwneud â'n cydweithwyr ond ni fyddwn yn osgoi cael sgyrsiau anodd pan fo angen. Byddwn yn trin cydweithwyr â charedigrwydd a pharch ac yn canolbwyntio ar atebion wrth fynd ati i gefnogi gwelliannau.
- **Cael gwared ar seilos a darparu gwasanaethau di-dor i gwsmeriaid –** Rydym ni'n gweithio i chwalu seilos ac ni fyddwn yn derbyn meddylfryd "nid fy ngwaith i ydy hynny" na "gwaith rhywun arall ydy hynny". Rydym yn ceisio edrych arno drwy lygaid cwsmeriaid a'u trin fel y byddem ni'n dymuno cael ein trin. Ni ddylai strwythurau mewnol, methiant prosesau na symud gwaith rhwng timau achosi niwed nac anhwylustod i gwsmeriaid, a byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gwasanaethau'n ddi-dor.

## 06: Arwain a Rheoli

**"Rydym yn creu sefydliad sy'n cydbwyso arweinyddiaeth pobl yn effeithiol â sgiliau technegol."**


Rydym yn canolbwyntio ar sgiliau arwain a chapasiti. Rydym yn datblygu arweinwyr sy'n gallu mynd â'r sefydliad o'r pethau pwysig i'r cam twf. Rydym yn sicrhau safonau arwain a rheoli cyson ar draws y grŵp fel bod cydweithwyr yn cael eu harwain yn dda lle bynnag y maent yn gweithio yn y busnes. Bydd ymrwymiad i arweinyddiaeth dosturiol; mynd i'r afael â'r pethau anodd ond mewn ffordd garedig a pharchus.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Datblygu gallu a chapasiti arwain o'r radd flaenaf –** Byddwn yn buddsoddi yn ein harweinwyr a'n rheolwyr ac yn meithrin ymdeimlad o'r fraint bod y gwaith o arwain a rheoli eraill yn cael ei roi yn eu gofal. Byddwn yn mynnu'r safonau uchaf gan ein harweinwyr a'n rheolwyr ac yn rhoi sgiliau a gwybodaeth iddynt er mwyn eu cefnogi.
- **Sicrhau safonau arwain cyson ar draws y grŵp –** Byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cydweithwyr yn cael eu harwain yn dda ni waeth ble maent yn gweithio yn y busnes. Mae gennym gyfres o bethau 'nad ydynt yn agored i drafodaeth' o ran arwain a rheoli. Mae'r rhain yn cynnwys gosod amcanion effeithiol, cynnal cyfarfodydd un-i-un a chyfarfodydd tîm yn rheolaidd.
- **Sicrhau bod ein hymddygiad arwain wedi'i wreiddio yng ngwead y sefydliad –** Rydym yn disgwyl i'n harweinwyr fodelu ymddygiad bob amser, gan arwain drwy esiampl a gosod y safonau uchaf. A byddwn yn disgwyl i gydweithwyr fodelu ymddygiad ein cydweithwyr, a phan fydd yr ymddygiadau hynny'n cyd-fynd byddwn yn creu lle gwirioneddol wych i weithio ynddo.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Sicrwydd bod gan gydweithwyr amcanion clir, cyfarfodydd un-i-un a chyfarfodydd tîm rheolaidd
- Cynnydd amlwg yn erbyn rhaglen datblygu arweinyddiaeth
- Modiwlau sefydlu ychwanegol ar waith ar gyfer arweinwyr a rheolwyr newydd sy'n ymuno â'r sefydliad
- Cynllun clir i ymgorffori ymddygiad arwain ar draws y grŵp
- Gwell adborth ymysg cydweithwyr ar arweinyddiaeth y sefydliad




## 07: Llesiant

**Byddwn yn meithrin diwylliant lle mae llesiant ein cydweithwyr yn rhan annatod o bopeth a wnawn.**

Byddwn yn datblygu diwylliant o iechyd, bodlonrwydd a gwydnwch y sefydliad, y tîm ac unigolion lle mae llesiant yn cael ei hyrwyddo ar bob lefel.

Rydym yn hyrwyddo cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith drwy ganolbwyntio ar y canlyniadau cywir yn hytrach na'r oriau sy'n cael eu gweithio.

Rydym yn hyrwyddo dull cyfannol o ymdrin â llesiant drwy ganolbwyntio ar lesiant corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac ariannol.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Cynnydd amlwg yn erbyn ein Cynllun Gweithredu Llesiant
- Gwell adnoddau llesiant
- Gwell boddhad/ adborth ymysg cydweithwyr ar faterion sy'n ymwneud â llesiant
- Ennill achrediad llesiant Buddsoddwyr mewn Pobl
- Lefelau is o absenoldeb oherwydd salwch

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Creu'r amodau cywir i gefnogi llesiant cydweithwyr a gwneud yn siŵr ei fod yn rhan annatod o bopeth a wnawn –** Byddwn yn ymdrechu i ddatblygu diwylliant o ddeialog agored ynghylch pob agwedd ar lesiant, gan gynnwys y pethau na siaredir yn rhydd amdanynt fel materion iechyd meddwl neu bryderon ariannol. Byddwn yn datblygu cymunedau perthyn i rannu profiadau a chreu rhwydweithiau cymorth.
- **Dangos ein hymrwymiad i lesiant a chreu diwylliant lle mae llesiant yn gyfrifoldeb ar bawb –** Er y bydd y sefydliad, ei arweinwyr, ei reolwyr a'i Dîm Pobl yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi llesiant cydweithwyr, mae'n bwysig deall nad yw llesiant yn dechrau ac yn gorffen yn y gweithle. Ar y sail honno, yr hyn sy'n allweddol i'n llwyddiant yw addysgu a grymuso cydweithwyr i wneud dewisiadau gwybodus ac arddangos ymddygiad llesiant cadarnhaol.
- **Darparu cymorth ac ymyriadau llesiant ystyrlon ac effeithiol sy'n seiliedig ar anghenion amrywiol ein cydweithwyr –** Rydym yn deall nad oes un ateb sy'n addas i bawb felly rydym ni'n cynnig amrywiaeth o fentrau a chymorth llesiant sy'n ymwneud â'r pedair colofn llesiant – corfforol, emosiynol, cymdeithasol ac ariannol. Rydym yn cydnabod nad ni yw'r arbenigwyr ond lle bo'n briodol gallwn gyfeirio cydweithwyr at wasanaethau neu adnoddau eraill.

Strategaeth

# Cartrefi a Chymunedau

**Buddsoddi yn ein cartrefi. Cynnal ein dyfodol.**



# Strategaeth Cartrefi a Chymunedau 2026-2031

## Cyd-destun

Cymoedd i'r Arfordir yw'r landlord cymdeithasol unigol mwyaf ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae'n berchen ar dros 6,000 o gartrefi ac asedau masnachol ac yn eu rheoli.

Mae lefelau uchel o dlodi, anabledd ac iechyd gwael ym mhob ardal ac mae natur Gristnogol y cymunedau, sydd â mwyafrif gwyn, yn golygu bod unigolion amrywiol yn cael eu hynysu ac nad oes darpariaeth ddigonol ar eu cyfer. Bydd y strategaeth hon yn golygu bod modd darparu ar gyfer y gwahanol ddymuniadau ac anghenion mewn cartrefi a chymunedau.

Mae'r rhan fwyaf o gartrefi Cymoedd i'r Arfordir yn dai teras, fflatiau, a fflatiau deulawr, a adeiladwyd rhwng 1945 ac 1980, sy'n golygu bod ganddo broffil stoc sy'n heneiddio. Adeiladwyd tua 1,000 o gartrefi gan ddefnyddio technegau adeiladu anhraddodiadol h.y. heb ddefnyddio brics na cherrig.

O ganlyniad, mae cyfran fawr o'r stoc yn ddrud i'w chynnal ac yn anodd ei diweddaru i gyd-fynd â safonau'r oes fodern.

O fewn y busnes mae dealltwriaeth dda o gyflwr y stoc a pherfformiad asedau cymharol. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r wybodaeth hon a ddefnyddir i lywio penderfyniadau yng ngweithrediadau'r sefydliad o ddydd i ddydd ac nid oes gan y busnes y gallu i droi data a gwybodaeth yn rhywbeth amgenach na hynny.

Yn allanol, mae cyfnod o newid cyflym yn y sector a'r amgylchedd economaidd. Mae macro-economeg cyfnewidiol yn cael effaith niweidiol ar gostau Cymoedd i'r Arfordir a'i gadwyn gyflenwi.

Mae'r safonau cynyddol sy'n ymwneud â Safon Ansawdd Tai Cymru 2023, rheoliadau Iechyd a Diogelwch, a chynlluniau uchelgeisiol i wella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi, yn sbarduno'r angen i Cymoedd i'r Arfordir wneud pethau'n wahanol.

## Ein huchelgais

Er mwyn rheoli ei heriau, bydd angen i Cymoedd i'r Arfordir arallgyfeirio ei fusnes a chwilio am fodelau cyflenwi gwahanol. Bydd angen iddo ddod yn fwy effeithlon drwy wneud y canlynol:

- sicrhau gostyngiad mewn galw oherwydd methiant
- defnyddio data yn well i dargedu adnoddau
- goruchwyliaeth a rheolaethau ariannol mwy effeithiol
- defnyddio technoleg yn well
- defnyddio partneriaethau a gwasanaethau a rennir yn well
- canolbwyntio ar yr hyn mae'r cwsmer ei eisiau.

Bydd y strategaeth hon yn helpu i symud y busnes i wneud penderfyniadau doethach ac yn gwireddu arbedion effeithlonrwydd a mwy o foddhad mewn perthynas â gwasanaethau sy'n seiliedig ar ddata.

## Ein dull gweithredu

Bydd Cymoedd i'r Arfordir yn gwella ei gartrefi a'i gymunedau i greu lleoedd sy'n ddymunol, a lle mae pobl yn falch o fyw. Bydd yn mabwysiadu dull cyfannol o ymdrin â'i gartrefi a'i gymunedau, gan sicrhau bod llais y cwsmer a defnydd cadarn o ddata yn arwain yr holl benderfyniadau. Bydd y dull gweithredu yn cynnwys pob ased gan gynnwys mannau gwyrdd a llwyd, eiddo masnachol a chyfleoedd tir yn y dyfodol.

Bydd yn cymryd agwedd ddigyfaddawd at ddiogelwch ac ansawdd gwasanaethau i gwsmeriaid gan sicrhau bod pob cartref yn ddiogel, yn gynnes ac yn sych. Bydd yn gwneud y gorau o'r arian y mae'n ei wario drwy ddefnyddio data a llais y cwsmer i dargedu gwariant cynnal a chadw, a sicrhau trefniadau da ar gyfer caffael a rheoli contractau.

Mae gwaith atgyweirio ymatebol yn ddrud i Cymoedd i'r Arfordir ac yn tarfu ar gwsmeriaid. Byddwn yn symud y busnes tuag at raglenni cynnal a chadw ac amnewid cydrannau sydd wedi'u cynllunio ac sy'n seiliedig ar ddata. Caiff y rhain eu cyflawni drwy ddulliau rhagweithiol a chartref cyfan, mapio materion, a meddylfryd adfywio.

Manteisir i'r eithaf ar strwythurau'r grŵp, a gosodir y sylfeini ar gyfer adfywio ar raddfa fawr drwy ddatblygu, adnewyddu, gwaredu a phartneriaethau strategol.

Bydd y strategaeth hon yn helpu i sicrhau Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru sy'n well drwy arferion busnes sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ac sy'n cefnogi'r economi sylfaenol yn ogystal â darparu gwerth da i gwsmeriaid.

## Ein blaenoriaethau

Mae nifer o themâu trawsbynciol drwy'r strategaeth gyfan. Fodd bynnag, er mwyn bod yn glir, bydd y weledigaeth yn cael ei chyflawni gyda'r pum blaenoriaeth ganlynol:

- Defnyddio llais y cwsmer i lunio gwasanaethau
- Cartrefi diogel, cynnes a sych o ansawdd uchel
- Gwella ansawdd data a'r defnydd ohono
- Buddsoddi'n ddoeth i ddarparu cartrefi sy'n 'barod ar gyfer y dyfodol'
- Gweithio tuag at gartrefi carbon niwtral.

**Bydd canlyniadau ac elfennau i'w cyflawni penodol yn addasu wrth i ni dyfu.**



## 01: Defnyddio llais y cwsmer i lunio gwasanaethau

**"Bydd llais y cwsmer yn ganolog i'r gwaith o lunio ein gwasanaethau er mwyn adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf i'n cymunedau a darparu ar gyfer anghenion unigolion."**

Drwy wneud hyn, gallwn sicrhau bod pob cwsmer yn teimlo cysylltiad â Cymoedd i'r Arfordir ac yn cael llais go iawn yn yr hyn sy'n digwydd yn lleol.

Ymgynghorir â chwsmeriaid i ganfod blaenoriaethau lleol cwsmeriaid.

Bydd hyn yn helpu i lunio gwasanaethau a datblygu cynlluniau buddsoddi sy'n wirioneddol adlewyrchu safbwyntiau a blaenoriaethau lleol. Bydd yr adolygiad o'r hyn y mae cwsmeriaid ei eisiau o'u cartrefi a'u cymunedau yn cael ei gynnal drwy wahanol ddulliau er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o leisiau cwsmeriaid yn cael eu clywed. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys beth a sut mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu mewn meysydd fel safonau gwasanaethau, profiad, hwylustod, a mynediad at wasanaethau.

Mae cwynion ac adborth gan gwsmeriaid yn gyfle go iawn i ddysgu a gwella gwasanaethau. Bydd y strategaeth hon yn ceisio lleihau nifer y cwynion sy'n cael eu cadarnhau a'u hailadrodd, ond pan fydd pethau'n mynd o chwith bydd cwynion yn cael eu rheoli'n dda ac yn anad dim bydd yr hyn a ddysgir yn cael ei gofnodi er mwyn gwella ar gyfer y dyfodol.

Bydd dulliau cyfathrebu'n agored, yn onest ac yn barchus a byddant yn cynnwys manylion am waith, cynlluniau ar gyfer cartrefi, ac unrhyw newidiadau i'r cynlluniau hynny.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Cynnal adolygiad o'r hyn y mae cwsmeriaid ei eisiau gan ein gwasanaethau a llunio ein gwasanaethau**
- **Cynnal ymgynghoriad helaeth â chwsmeriaid er mwyn deall eu blaenoriaethau yn well a defnyddio hyn i lunio gwasanaethau yn unol â blaenoriaethau lleol a gwahanol anghenion**
- **Gwella ein cynnig digidol gan ddarparu dewis a'i gwneud yn haws i gwsmeriaid gysylltu â ni a chael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt pan fyddant yn dymuno gwneud hynny**
- **Gwella boddhad â'n gwasanaethau, diogelwch ac atgyweirio cartrefi, pa mor dda rydym yn gwrando ac yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chwsmeriaid**
- **Rydym yn awyddus i weithio tuag at leihau cwynion sy'n cael eu cadarnhau/ailadrodd a defnyddio'r cwynion sydd gennym i wella gwasanaethau**
- **Cyfathrebu'n effeithiol â chwsmeriaid mewn ffordd agored, onest a pharchus a darparu gwybodaeth ddefnyddiol a'r wybodaeth ddiweddaraf am y pethau sy'n bwysig iddynt**

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Mwy o foddhad ymysg cwsmeriaid
- Cynrychiolaeth leol ac ymgysylltiad ar brosiectau penodol
- Safonau a gymeradwyir gan gwsmeriaid a chraffu ar wasanaethau
- Llai o gwynion yn cael eu cadarnhau/ailadrodd




## 02: Cartrefi diogel, cynnes a sych o ansawdd uchel

**""Bydd y strategaeth hon yn symud Cymoedd i'r Arfordir o raglen cynnal a chadw adweithiol dan arweiniad cydrannau i ddull mwy cyfannol."**

Bydd yn darparu cartrefi diogel, cynnes a sych o ansawdd uchel drwy ddefnyddio arolygon cartrefi cyfan, problemau amlwg gyda chartrefi tebyg, a lleoliad daearyddol. Bydd tueddiadau data cyfredol ac, yn y pen draw, data amser real yn cael eu defnyddio i sicrhau ein bod yn cyrraedd y safonau ansawdd cywir. Drwy ddefnyddio llais y cwsmer amrywiol, bydd y safonau a bennir ar gyfer ein cartrefi a'n gwasanaethau yn gynhwysol ac yn bodloni anghenion amrywiol pobl.

Bydd hyn yn golygu bod modd datrys materion gweladwy ynghyd â materion sylfaenol nad ydynt wedi cael diagnosis eto. Bydd hyn yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd wrth i raglenni fod mewn un lle, yn tarfu cyn lleied â phosibl ar gwsmeriaid, ac yn gwneud

gwahaniaeth amlwg ac effeithiol o ran ein gwariant. Drwy'r dull hwn, bydd y busnes yn symud o wasanaeth adweithiol i wasanaeth wedi'i gynllunio sy'n gallu rhagweld pethau cyn iddynt ddod yn broblem.

Mae hyn yn golygu efallai y bydd gwaith yn cael ei wneud mewn rhai ardaloedd yn hwyrach na'r disgwyl i wneud lle ar gyfer y rhaglen newydd hon. Bwriedir cyfathrebu â chwsmeriaid i reoli disgwyliadau a bydd gwaith hanfodol i gadw cartrefi'n ddiogel, yn gynnes ac yn sych yn parhau i gael ei wneud. Bydd y dull cyfannol hwn yn canolbwyntio ar adeiledd yr adeilad gan sicrhau bod cartrefi'n ddiogel, yn dal dŵr, ac yn haws eu gwresogi.

Bydd Cymoedd i'r Arfordir yn sicrhau bod dull cadarn o fodloni'r holl ofynion o ran diogelwch adeiladau a chydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoleiddiol er mwyn i gwsmeriaid deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi. Byddwn yn gwneud hyn drwy gael polisïau cadarn mewn meysydd fel diogelwch nwy, trydanol a thân yn ogystal â materion sy'n ymwneud â chyflwr gwael, lleithder a llwydni.

Bydd y rhain yn seiliedig ar fframwaith rheoli perfformiad a sicrwydd cadarn i sicrhau ein bod yn cyflawni. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â chwsmeriaid er mwyn iddynt gael gwybod sut rydym yn perfformio. Bydd cynllun i hyrwyddo a gwreiddio diwylliant diogelwch cadarnhaol ar draws Cymoedd i'r Arfordir yn cael ei ddatblygu. Mae hyn yn golygu bod pob cydweithiwr, a phartneriaid contractwyr, yn mynd ati'n rhagweithiol i nodi unrhyw fater ion diogelwch, presenoldeb peryglon, ac unrhyw broblemau gyda chyflwr cyffredinol cartrefi a chymdogaethau.

Drwy gydol pum mlynedd y strategaeth hon, byddir yn datblygu'r cydbwysedd gorau posibl o ran cyflawni drwy gontractwyr ynghyd â strwythur y grŵp. Bydd prosesau caffael a rheoli contractwyr yn dda yn sail i'r dull hwn o ymdrin ag ansawdd a Gwerth am Arian.

Byddwn yn adolygu'r rhaglenni cartrefi gwag a chynnal a chadw cylchol i sicrhau eu bod yn seiliedig ar ddata,

gwerth am arian, a bod y cwsmer yn ganolog i'r gwasanaethau.

**Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:**

- **Buddsoddi digon o adnoddau yn brydlon** i sicrhau bod pob cartref yn ddiogel ac o leiaf yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru 2023
- **Defnyddio data a gwybodaeth busnes** i lunio gwasanaethau ac atal problemau y gellir eu hosgoi rhag codi
- **Datblygu cynlluniau** i gynyddu cyfran y buddsoddiad a gyflawnir mewn ffordd gynlluniedig yn hytrach nag adweithiol
- **Archwilio'r potensial** i gynyddu lefel y ddarpariaeth drwy Llanw
- **Sicrhau bod gennym y strwythurau a'r sgiliau** i reoli ein prosiectau a'n contractau yn effeithiol, ynghyd â chaffael contractwyr allanol
- **Cryfhau ein dull gweithredu** o ran canfod a blaenoriaethu gwaith atgyweirio
- **Ymgymryd ag adolygiad sylfaenol** o'r gwasanaeth unedau gwag
- R**hoi rhaglenni cynnal a chadw** cylchol cadarn ar waith
- **Ymgorffori dull cadarn** o fodloni'r holl ofynion o ran diogelwch adeiladau a chydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoleiddio, a pharhau i wreiddio diwylliant diogelwch cadarnhaol ar draws Cymoedd i'r Arfordir

**Sut mae llwyddiant yn edrych:**

- Gostyngiad mewn costau unedau gwag ac amser
- 100% yn cydymffurfio
- Gostyngiad mewn achosion cyflwr gwael a lleithder a llwydni
- Contractwyr yn cwrdd â safonau monitro DPA




## 03: Gwella ansawdd data a'r defnydd ohono

**"Mae Cymoedd i'r Arfordir wedi ymrwymo i gasglu a defnyddio data cadarn am asedau er mwyn llywio ein penderfyniadau a sicrhau buddsoddiadau Gwerth am Arian yn ein cartrefi."**

Bydd buddsoddi mewn technoleg yn golygu bod modd i gartrefi gael eu cysylltu'n ddigidol gan ddarparu data amser real. Bydd hyn yn galluogi Cymoedd i'r Arfordir i fanteisio ar fathau rhagfynegol o gynnal a chadw eiddo o bell.

Y nod yn y pen draw wrth ddefnyddio'r dechnoleg hon yw cael effaith gadarnhaol ar faterion megis lleithder a llwydni, cyddwysiad, effeithlonrwydd ynni, a gwaith amnewid cydrannau sydd wedi'i gynllunio.

Fodd bynnag, bydd angen cefnogi'r buddsoddiad hwn drwy uwchsgilio cydweithwyr a chwsmeriaid i sicrhau bod y dechnoleg hon yn cael ei chroesawu a'i defnyddio i'r eithaf. Bydd parhau i fuddsoddi yn ein systemau, ein prosesau a'n ffyrdd o weithio yn sicrhau bod gan ein cydweithwyr yr wybodaeth a'r sgiliau i gynhyrchu'r data a'r wybodaeth busnes i lywio penderfyniadau rheoli asedau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd pob cydweithiwr yn deall bod ansawdd data yn rhan o'r swydd a'i fod yn gyfrifoldeb ar bawb, a byddir yn datblygu dull un fersiwn o'r gwirionedd o ymdrin â data a gwybodaeth busnes.

Bydd asesiad stoc cyfan yn cael ei gynnal i sicrhau ein bod yn parhau i gadw data cywir, cyfoes a chadarn ar gyflwr a pherfformiad ynni. Bydd ein dealltwriaeth o berfformiad asedau cymharol yn cael ei hadnewyddu, a byddwn yn ei defnyddio i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch buddsoddiadau yn y dyfodol.

Bydd penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata yn cynnwys data cwsmeriaid gan y bydd manylion am fregusrwydd, statws economaidd-gymdeithasol ac amrywiaeth yn effeithio ar ofynion cartrefi a chymunedau.

**Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:**

- **Sicrhau bod pob cydweithiwr yn deall bod ansawdd data yn gyfrifoldeb** ar bawb a bod gan gydweithwyr perthnasol yr wybodaeth a'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen
- **Datblygu polisïau a gweithdrefnau ansawdd data** ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth am berfformiad ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau
- **Gwella ansawdd data a'r defnydd ohono** i lywio sut rydym yn llunio gwasanaethau ac yn mynd ati'n rhagweithiol i atal problemau
- **Cynnal asesiad stoc cyfan bob 5 mlynedd ym mhob un o'n cartrefi,** a manteisio ar bob cyfle i ddiweddaru data am gyflwr a pherfformiad ynni
- **Meincnodi er mwyn deall sut mae costau** a pherfformiad yn cymharu, a nodi cyfleoedd i wella'n barhaus

**Sut mae llwyddiant yn edrych:**

- Cyflwyno a chynnal proses graddio cartrefi sydd y tu hwnt i wybodaeth am gydrannau
- Casglu data perfformiad byw ynghylch eiddo blaenoriaeth uchel sy'n perfformio'n wael
- Creu o fewn strwythur y sefydliad lle mae data'n cael ei gasglu a'i ddefnyddio ar draws adrannau Cymoedd i'r Arfordir

## 04: Buddsoddi'n ddoeth i ddarparu cartrefi sy'n 'barod ar gyfer y dyfodol'

**"Byddir yn edrych ar fuddsoddi mewn ffordd gyfannol gan dargedu cartrefi a lleoedd er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl a gwella cynaliadwyedd yn y dyfodol."**

Y nod yw sicrhau bod ein cartrefi yn ddymunol a'u bod yn bodloni anghenion cwsmeriaid yn y dyfodol, ond mae cost cyfle ynghlwm wrth bob buddsoddiad – pan fydd arian yn cael ei wario ar un peth, nid yw'n cael ei wario yn rhywle arall.

Bydd Cymoedd i'r Arfordir yn datblygu cynlluniau buddsoddi tymor hwy sy'n integreiddio'r holl fuddsoddiad mewn cartrefi a lleoedd. Mae hyn yn cynnwys yr holl waith datgarboneiddio. Drwy wneud hyn, sicrheir yr effaith fwyaf bosibl drwy wneud yn siŵr bod yr holl fuddsoddiadau'n cael eu cydlynu a'u bod yn ategu ei gilydd, hyd yn oed os ydynt yn digwydd ar wahanol adegau.

Bydd penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau yn y dyfodol yn cael eu llywio gan ddata cadarn ar ein stoc a'i berfformiad asedau cymharol. Cynhelir gwerthusiadau o opsiynau ar gartrefi o ansawdd gwael neu sy'n perfformio'n wael er mwyn archwilio'r camau gweithredu sydd ar gael.

Y nod fydd gwella perfformiad, a bydd yr ystyriaethau'n cynnwys ailfodelu, ailddatblygu, gwaredu, neu ymyriadau seiliedig ar ystadau.

Bydd cynllun datblygu ac adfywio tymor hwy yn cael ei ddatblygu. Ceisir cyfleoedd i ddatblygu cartrefi newydd ac adfywio ardaloedd drwy reoli ein hasedau presennol i alluogi cartrefi a lleoedd o ansawdd uchel sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd darparu ar gyfer anghenion amrywiol cwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol yn hyrwyddo cymunedau cynhwysol i'r dyfodol.

Mae Cymoedd i'r Arfordir yn chwarae rhan bwysig fel gwneuthurwyr lleoedd, sy'n golygu bod angen i ni weithio'n effeithiol gydag amrywiaeth o bartneriaid ac ymgysylltu â'n cymunedau lleol. Datblygir partneriaethau cryf gyda'r nod

o sicrhau bod ein hadnoddau a rennir yn cael yr effaith fwyaf bosibl, gan gynnwys cyllid allanol ledled Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd holl rolau a chyfrifoldebau partneriaid yn cael eu diffinio'n glir a bydd yr holl fuddsoddiadau a gweithgareddau'n cael eu cydlynu. Bydd llais y cwsmer yn allweddol o ran sicrhau bod y dull hwn yn cyflawni'r hyn sydd bwysicaf i gymunedau.

Mae gwella defnyddioldeb mannau gwyrdd a llwyd lleol sy'n agored at ddibenion amwynder neu werth bioamrywiaeth neu fanteision cymunedol ehangach eraill yn rhan annatod o wella ansawdd ein cymdogaethau.

Ceisir cyfleoedd i greu cyllid ychwanegol yn yr ardal hon.

At hynny, lle nodir bod hyn yn flaenoriaeth leol, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i archwilio sut y gallwn gysylltu cymdogaethau'n well â chyfleoedd iechyd, llesiant, cymdeithasol a chyflogaeth. Gallai hyn gynnwys gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth, cysylltedd digidol, siopau neu gyfleusterau cymunedol.

Gall cartrefi sy'n hygyrch ac y gellir eu haddasu gynorthwyo cwsmeriaid i barhau i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol am gyfnod hirach a lleihau'r galw ar wasanaethau eraill. Pan fo modd, bydd addasiadau'n cael eu gwneud yn gyflym. Bydd prosesau a pholisïau clir yn sicrhau bod pobl yn cael gwybod am wybodaeth a chyngor da.

Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau drwy gynnal cofrestr eiddo gyfoes. Byddwn yn ailosod cartrefi wedi'u haddasu i aelwydydd ag anghenion tebyg neu'n ailgylchu offer lle bo modd.

Byddwn hefyd yn buddsoddi yn ein portffolio masnachol, gan sicrhau'r elw mwyaf posibl ar fuddsoddiad o safbwynt masnachol a chymdeithasol.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Mabwysiadu dull cyfannol drwy integreiddio pob buddsoddiad** (gan gynnwys gwaith datgarboneiddio) mewn cartrefi a lleoedd
- **Defnyddio data cadarn** ynghylch ein perfformiad asedau cymharol a stoc i lywio'r broses o wneud penderfyniadau
- **Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu cartrefi newydd** ac adfywio ardaloedd drwy reoli ein hasedau presennol
- **Cynnal gwerthusiadau o opsiynau ar gartrefi o ansawdd gwael** neu sy'n perfformio'n wael
- **Datblygu cynllun datblygu a**c adfywio tymor hwy
- **Gweithio gyda chwsmeriaid** a phartneriaid i wella ansawdd ein cymdogaethau
- **Diwallu anghenion dynodedig cwsmeriaid** ar gyfer addasiadau lle bo hynny'n bosibl

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Gwell boddhad ymysg cwsmeriaid â'u cartrefi
- Creu rhaglen fuddsoddi sy'n cynnal ein cartrefi cyn i gydrannau fethu.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i gynnydd y cynlluniau adfywio
- Mapio a graddio mannau gwyrdd a llwyd
- Meintoli a graddio ein hasedau masnachol

## 05: Gweithio tuag at gartrefi carbon niwtral

**““Dros y pum mlynedd nesaf, bydd perfformiad cynaliadwyedd yn gwella a bydd gostyngiad yn yr ôl troed carbon.“**

Mae’r ymgyrch tuag at sero net wedi’i nodi yng nghynllun Sero Net Cymru Llywodraeth Cymru a’r camau i integreiddio targedau o fewn Safon Ansawdd Tai Cymru 2023. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i bob tŷ cymdeithasol gael sgôr EPC o C erbyn 31 Mawrth 2030. Ar hyn o bryd, mae gan 50% o gartrefi Cymoedd i’r Arfordir sgôr C, gydag 11% â sgôr B; 11% D; 1% A a 0.5% E.

Y flaenoriaeth gyntaf fydd cyfuniad o brosiectau wedi’u targedu y gellir eu cyflawni a gwaith ar yr eiddo sy’n perfformio waethaf ar yr un pryd â sicrhau bod yr holl fuddsoddiadau sylweddol yn cynrychioli gwerth da am arian. Ar gyfer cartrefi lle nodir bod y costau’n afresymol, byddwn yn cynnal gwerthusiadau o’r opsiynau i ganfod yr opsiwn gorau i’r dyfodol.

Bydd Cymoedd i’r Arfordir yn datblygu map datgarboneiddio sy’n nodi ein blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer ôl-osod, gwaith allanol sy’n defnyddio ynni’n effeithlon, darpariaeth wresogi yn y dyfodol, a defnyddio technolegau adnewyddadwy newydd ar gyfer gwahanol fathau o eiddo. Bydd pob cynllun buddsoddi yn y dyfodol yn integreiddio gwaith datgarboneiddio yn y cynlluniau buddsoddi ehangach, gan gysoni rhaglenni amnewid cydrannau lle bynnag y bo modd er mwyn helpu i leihau costau a lleihau’r tarfu.

Bydd ein dull buddsoddi yn hyblyg, a bydd hynny’n ein galluogi i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd cyllido neu weithio mewn partneriaeth.

Mae cynnal Asesiad Stoc Cyfan yn hanfodol i ddatblygu Llwybrau Ynni Targed, ac er mwyn cynllunio’n effeithiol bydd angen i ni ystyried data, meddalwedd a sgiliau dadansoddi. Byddwn yn parhau i gadw data cywir, cyfoes a chadarn ar gyflwr a pherfformiad ynni ein stoc. Bydd angen data ynni manylach a bydd angen datblygu gwybodaeth a sgiliau technegol a rheoli data newydd ar draws y sefydliad. Bydd y galw ar gontractwyr yn yr ardal hon yn cynyddu felly bydd angen gwneud gwaith i sicrhau sgiliau lleol a hyfforddi a datblygu ein staff ein hunain.

Unwaith eto, mae cwsmeriaid yn rhan annatod o’r gwaith o ddatblygu ein cynlluniau ond hefyd yn y defnydd o dechnolegau newydd yn ein cartrefi.

Bydd cwsmeriaid yn cymryd rhan yn y gwaith o dreialu a hyrwyddo llwyddiant ôl-osod a thechnolegau a dulliau adnewyddadwy newydd, er enghraifft, gwresogi ac ynni adnewyddadwy fel rhan o’n gwaith datgarboneiddio.


Byddwn yn ymrwymo i archwilio dulliau newydd ac arloesol o weithio gyda phrifysgolion, partneriaid cyflenwi a rhanddeiliaid allweddol i ganfod atebion a brofwyd y gellir eu cyflawni. Byddwn yn gwrando ac yn dilyn dulliau newydd sy’n gweithio tuag at ddatgarboneiddio yn ddi-oed.

### Rydym wedi ymrwymo i’r canlynol:

- **Cynnal Asesiad Stoc Cyfan bob** pum mlynedd i sicrhau bod data am gyflwr a pherfformiad ynni yn gyfredol (gan ddefnyddio prosesau ansawdd data da)
- **Sicrhau bod ein cynlluniau buddsoddi ac ariannol yn adlewyrchu costau** datgarboneiddio ac uchelgeisiau sefydliadau
- **Cynllunio ar gyfer tîm newydd**, a buddsoddi ynddo, i arwain ein rhaglen ôl-osod a datgarboneiddio
- **Gwreiddio sgiliau technegol** ôl-osod a rheoli data newydd ar draws y sefydliad
- **Archwilio’r potensial i uwchsgilio a chynyddu capasiti** mewnol drwy Llanw i gadwyni cyflenwi lleol
- **Gweithio gyda chwsmeriaid i gyd-gynhyrchu cynlluniau** ar gyfer dyfodol carbon niwtral
- **Bod â phrosiectau ar y silff y gellir eu rhoi ar waith yn gyflym** mewn ymateb i argaeledd grantiau

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Map of homes that can have improved efficiency to inform our future investment programme
- Measure our stock condition data
- Set targets which deliver both value for money for the organisation and tangible improvements for our customer



Strategaeth

# Profiad Cwsmeriaid

Meithrin ymddiriedaeth.
Grymuso cymunedau.
Sicrhau rhagoriaeth.



# Strategaeth Profiad Cwsmeriaid 2026-2031

## Cyd-destun

Mae ein cwsmeriaid wrth galon pob penderfyniad rydym ni'n ei wneud fel busnes. Er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel a phrofiad rhagorol i gwsmeriaid, mae'n rhaid i ni wrando ar ein cwsmeriaid a'n cymunedau i sicrhau ein bod yn gweithio gyda nhw i ddatblygu a darparu'r gwasanaethau y mae arnynt eu heisiau a'u hangen, pan fydd arnynt eu hangen, ac yn y mannau y mae arnynt eu hangen.

Er mwyn gwella boddhad ein cwsmeriaid, mae angen i ni atgyweirio, adeiladu a chynnal eu hymddiriedaeth drwy fod yn agored, yn dryloyw ac yn gynhwysol. . **Dywedodd y cwsmeriaid a ymatebodd i'n Harolwg STAR 2022 wrthym fod:**

- 63% yn ymddiried yn Cymoedd i'r Arfordir
- 54% yn fodlon â'r cyfleoedd a ddarparwyd i gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau Cymoedd i'r Arfordir, a;
- 53% yn fodlon ein bod yn gwrando ar eu barn ac yn gweithredu arni.

Mae hyn yn dangos bod cyfran sylweddol o'n cwsmeriaid yn teimlo eu bod wedi'u hymddieithrio. Ein cwsmeriaid yw'r arbenigwyr yn eu cymunedau a thrwy gyd-gynhyrchu a dyrchafu llais y cwsmer yn Cymoedd i'r Arfordir gallwn sicrhau bod y camau rydym yn eu cymryd yn gwella ansawdd profiad ein cwsmeriaid yn barhaus ac yn darparu gwasanaeth tai rhagorol.

Yng nghyd-destun allanol ehangach tai cymdeithasol, rydym yn cydnabod ein bod ni, fel sector, yn wynebu rhai o'r heriau mwyaf a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r rheiny'n effeithio'n uniongyrchol ar ein cwsmeriaid a'n cymunedau.

Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i gael effaith ddinistriol ar ein cymunedau, yn enwedig aelwydydd sy'n gweithio ac sy'n cael Credyd Cynhwysol. **Roedd adroddiad diweddar gan Ymddiriedolaeth Trussell wedi tynnu sylw at y canlynol:**

- Mae 68% o aelwydydd sy'n gweithio ac sy'n cael Credyd Cynhwysol wedi mynd heb hanfodion yn ystod y chwe mis diwethaf
- Roedd bron i hanner (48%) y bobl a oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol wedi rhedeg allan o fwyd yn ystod y mis diwethaf ac nid oedd ganddynt ddigon o arian i brynu mwy
- Mae'r elusen yn amcangyfrif bod 1.6 miliwn o bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol wedi gorfod defnyddio banc bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf
- Mae ychydig dros ddwy ran o bump (46%) o bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol naill ai ar ei hôl hi gyda biliau ac ymrwymiadau credyd neu'n ei chael hi'n anodd cadw i fyny â nhw.

Wrth i ragor o Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno y flwyddyn nesaf i nifer sylweddol o'n cwsmeriaid, rydym yn rhagweld y byddwn yn gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n wynebu caledi ariannol. Mae hyn yn dangos eto sut mae angen cynyddu ymddiriedaeth gyda'n cwsmeriaid i sicrhau ein bod yn gallu gweithio gyda nhw, a bydd hynny hefyd yn cefnogi ein huchelgais o sicrhau mwy o foddhad ymysg cwsmeriaid.

Roedd trychineb Tŵr Grenfell a'r ymchwiliad dilynol wedi tynnu sylw at y canlyniadau dinistriol wrth i landlordiaid beidio â gwrando ar eu cwsmeriaid nac ymddiried ynddynt. At hynny, roedd marwolaeth drasig Awaab Ishak yn 2020 oherwydd lleithder a llwydni yn ei gartref yn Rochdale wedi atgyfnerthu difrifoldeb peidio â chymryd pryderon preswylwyr o ddifrif.

Yn dilyn marwolaeth Awaab, dywedodd yr Ombwdsmon Tai fod preswylwyr y gymdeithas dai wedi cael eu trin mewn "ffyrdd diystyriol, amhriodol neu ddigydymdeimlad".

## Ein huchelgais

Mae'r Strategaeth Cwsmeriaid yn nodi uchelgais a dull o sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n cwsmeriaid a'n cymunedau ac i ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar garedigrwydd ac ymddiriedaeth.

Er mwyn ateb yr heriau yn fewnol ac yn allanol, a gwella boddhad ein cwsmeriaid, mae angen i Cymoedd i'r Arfordir sicrhau ein bod yn gwrando ar ein cwsmeriaid a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu dyrchafu ar draws y Grŵp.

## Ein dull gweithredu

Er mwyn gwella boddhad cwsmeriaid, mae'n rhaid i ni sicrhau, beth bynnag fo'r rhyngweithio â'n cwsmeriaid drwy'r grŵp, y byddwn yn gwneud yn siŵr bod dull cyson yn cael ei fabwysiadu ac sy'n seiliedig ar gryfder a charedigrwydd ac sydd bob amser yn chwilio am fomentau calonogol.

Drwy ddeall anghenion, cryfderau a dyheadau ein cwsmeriaid a'n cymunedau, gallwn ddatblygu cymunedau gwydn sydd wedi'u grymuso, gan ddatblygu gwasanaethau rhagweithiol a pherthnasoedd â'n cwsmeriaid y tu allan i gyfnodau o argyfwng.

Drwy ddarparu ein gwasanaethau gyda charedigrwydd, gallwn chwalu rhwystrau, hyrwyddo dealltwriaeth, a meithrin perthnasoedd sy'n seiliedig ar empathi a pharch. Gall dangos caredigrwydd helpu i greu a chynnal cysylltiadau cymdeithasol, a thrwy ddangos caredigrwydd yn ein geiriau a'n gweithredoedd gallwn helpu i leihau gwahaniaethu ac anghydraddoldeb.

**"Ni fyddwn byth yn rhy brysur i ddarparu momentau calonogol i'n cwsmeriaid a'n cymunedau nac yn anghofio bod y perthnasoedd gorau'n cael eu meithrin yn ystod yr amseroedd da."**

Drwy ganolbwyntio ar gryfderau a datblygu perthnasoedd cadarnhaol a charedig, gallwn sicrhau ein bod yn ceisio dod o hyd i fomentau calonogol drwy ein gwaith gyda'n cwsmeriaid, a byddwn yn dathlu'r adegau hyn i ddyrchafu llais ein cwsmeriaid a'r cyfraniad cadarnhaol y gall pob un ohonom ei wneud at ddatblygu cymunedau cryf a gwydn.

## Ein blaenoriaethau

Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn darparu ein gwasanaethau drwy bum blaenoriaeth i gyflawni ein huchelgais o ran twf; fe'u mabwysiadir ar draws pob rhan o Grŵp Cymoedd i'r Arfordir i sicrhau profiad cyson i'n cwsmeriaid, ein cymunedau a'n rhanddeiliaid.

Mae themâu trawsbynciol drwy'r strategaeth gyfan. Fodd bynnag, er mwyn bod yn glir, bydd ein huchelgais o ran sicrhau rhagoriaeth i gwsmeriaid yn cael ei chyflawni drwy ganolbwyntio ar y pum blaenoriaeth ganlynol:

- Darparu gwasanaethau y gellir ymddiried ynddynt
- Darparu gwasanaethau cynhwysol
- Datblygu gwasanaethau pwrpasol
- Gwasanaethau rhagweithiol
- Gwasanaethau dan arweiniad y gymuned

Bydd canlyniadau ac elfennau i'w cyflawni penodol yn addasu wrth i ni dyfu.

## 01: Darparu gwasanaethau y gellir ymddiried ynddynt

**"Ni allwn gyflawni ein huchelgeisiau os nad oes gennym ymddiriedaeth ein cwsmeriaid."**

Rhaid i ennill a chynnal ymddiriedaeth ein cwsmeriaid fod yn brif flaenoriaeth gennym i sicrhau ein bod yn darparu profiad rhagorol i gwsmeriaid ac i sicrhau ein bod yn gwella boddhad ein cwsmeriaid. Rydym yn cydnabod y gall fod yn anodd ennill ymddiriedaeth a gall fod yn hawdd ei cholli, yn enwedig os ydym wedi methu yn ein dyletswydd i'n cwsmeriaid yn y gorffennol.

Fodd bynnag, er mwyn darparu gwasanaeth dibynadwy i'n cwsmeriaid, mae'n rhaid i ni wrando ar lais y cwsmer a'i ddeall er mwyn annog, hyrwyddo a chynydducyfraniad cwsmeriaid, a thrwy hynny gellir dylanwadu ar y gwasanaeth a ddarperir ledled Grŵp Cymoedd i'r Arfordir. Mae'n rhaid i ni fod yn dryloyw ac yn agored â'n cwsmeriaid, a chydnabod, esbonio pam ac ymddiheuro pan fydd pethau'n mynd o chwith, a rhoi digon o wybodaeth iddynt am y gwasanaethau a ddarparwn a phryd y byddwn yn eu darparu.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid ar draws strwythur ein Grŵp, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i wasanaethau incwm a rheoli tai effeithiol ac effeithlon, gwasanaethau rheoli asedau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid ac ymateb i geisiadau am waith atgyweirio, gwasanaethau adfywio ac ystadau cymunedol, a datblygiadau o ansawdd uchel yn y cymunedau cywir gan sicrhau bod y berthynas â'n cwsmeriaid yn un rhwng oedolion gyda chefnogaeth uchel a her uchel.

Gellir cyflawni hyn drwy amrywiaeth o ddulliau fel dadansoddi cwynion cwsmeriaid, gwrando ar yr adborth a gawn i ddeall lle mae pethau wedi mynd o chwith, a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu. Byddwn yn defnyddio'r Bwrdd Prosiect Rhagoriaeth Cwsmeriaid i sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn y prosiect yn cael ei rannu ar draws y Grŵp.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Safonau Gwasanaeth y cytunir arnynt ar draws y Grŵp** – Byddwn yn gweithio gyda'n cwsmeriaid a'n cydweithwyr i gytuno ar safonau gwasanaeth er mwyn sicrhau, ni waeth ble mae'r cyswllt ar draws y Grŵp, y bydd y dull yn gyson ac yn ddibynadwy gyda gwasanaethau sy'n hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio. Pan fyddwn yn methu â chyrraedd y safonau hyn, byddwn yn agored ac yn dryloyw ynghylch pam mae hyn wedi digwydd ac yn ymddiheuro ac yn ceisio gwella'n barhaus.
- **Dyrchafu llais y cwsmer i wella a llunio gwasanaethau** – Drwy'r Bwrdd Prosiect Rhagoriaeth Cwsmeriaid, byddwn yn defnyddio'r adborth a gawn gan ein cwsmeriaid drwy ein harolygon a'n cwynion i chwilio am gyfleoedd i wella ein gwasanaethau a byddwn yn rhoi gwybod am hyn i'n cwsmeriaid.
- **Dathlu'r momentau calonogol** – Mae perthnasoedd dibynadwy yn cael eu meithrin yn ystod cyfnodau cadarnhaol a byddwn yn manteisio ar bob cyfle i ddathlu'r momentau beunyddiol sy'n cynhesu'r galon drwy ein gwaith â chwsmeriaid a chymunedau er mwyn ysbrydoli a meithrin ymddiriedaeth.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Mwy o foddhad ymysg cwsmeriaid
- Mwy o ganmoliaeth
- Llai o gwynion yn cael eu hailadrodd
- Cynnydd yn nifer y cwsmeriaid sy'n ymwneud â'n gwasanaethau
- Gostyngiad yn nifer yr achosion lle nad oes mynediad i'r eiddo



## 02: Darparu gwasanaethau cynhwysol

**"Byddwn yn gweithio gyda'n cwsmeriaid, ein cymunedau a'n partneriaid i greu gwasanaethau cynhwysol gwych ac i barhau â'n dull o ymdrechu ar y cyd."**

Ein cwsmeriaid yw arbenigwyr eu cymunedau, a thrwy greu cyfleoedd i ddatblygu perthynas gadarnhaol â nhw gallwn edrych ar y materion ehangach sy'n effeithio arnynt a'n cymunedau i weithio gydag achosion yn hytrach na symptomau.

Byddwn yn sicrhau bod llais y cwsmer yn cael ei glywed ar draws holl feysydd gwasanaeth Cymoedd i'r Arfordir er mwyn dylanwadu a llywio penderfyniadau, a gall ddyrchafu llais y gymuned drwy gyd-gynhyrchu gwasanaethau.

Bydd yn cael ei gyflawni drwy sicrhau bod ein cydweithwyr ym maes Tai, Cwsmeriaid a Chymunedau yn cael eu gwreiddio yn eu cymunedau ac yn parhau i weithio mewn ffordd adferol.

Drwy ryngweithio cadarnhaol, byddwn yn creu cymunedau gwydn sydd ag ymdeimlad cryf o berthyn.

Byddwn yn rhoi cyfleoedd i gwsmeriaid gymryd mwy o ran yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn meysydd fel recriwtio, caffael, datblygu safonau gwasanaeth, a chraffu ar bolisïau a gweithdrefnau mewn ffyrdd sy'n gweithio iddynt, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

Drwy ein Hymrwymiad i Lais Cwsmeriaid a'r Gymuned a'r ymgyrch 'I'm In', byddwn yn cynnig amrywiaeth o ddulliau lle gall ein cwsmeriaid gyfrannu'n ystyrlon ac yn gadarnhaol at lwyddiant y Grŵp yn y dyfodol, a fydd yn cynnwys creu llysgenhadon cymunedol, grwpiau ffocws, a grwpiau gweithredu yn y gymuned.

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir gan ein partneriaid yn ein cymunedau i sicrhau nad ydym yn gweithredu ar ein pennau ein hunain a'n bod yn gynhwysol o ran y gwasanaethau rydym yn eu cynnig, a byddwn yn ceisio bod yn arloesol a datblygu gwasanaethau'n fewnol lle mae bylchau ac angen.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Cynyddu'r cyfleoedd i gwsmeriaid gymryd rhan** – Byddwn yn datblygu ein Hymrwymiad i Lais Cwsmeriaid a'r Gymuned a'r ymgyrch 'I'm In' gyda'n cwsmeriaid i sicrhau bod y rhai sy'n dymuno cymryd rhan yng ngwaith y Grŵp o ddarparu a gwella gwasanaethau yn cael pob cyfle sydd ar gael yn unol â'u diddordebau.
- **Cryfhau ein partneriaethau yn y gymuned** – Drwy sicrhau bod ein cydweithwyr ym maes Tai, Cwsmeriaid a Chymunedau wedi'u gwreiddio yn y gymuned, byddwn yn deall pa bartneriaethau sydd ar gael yn y gymuned ac yn dod yn bartner delfrydol i sicrhau ein bod yn cydweithio â phartneriaid i ddarparu gwasanaeth gwell. Rhaid i ni beidio ag anghofio ein partneriaethau mewnol ar drawws y Grŵp, a thrwy ein byrddau prosiect byddwn yn cydlynu ein gwasanaethau mewnol i sicrhau bod gennym bartneriaethau mewnol ac allanol cryf a chydweithredol.
- **Croesawu syniadau newydd** – Os bydd ein cwsmeriaid neu gydweithwyr yn nodi meysydd lle gellir gwneud newidiadau i wneud ein gwasanaethau'n fwy cynhwysol, boed hynny ar lefel leol iawn neu ledled y Grŵp, byddwn bob amser yn croesawu ac yn annog y rhain a byddwn yn mabwysiadu agwedd o'r hyn sy'n gryf yn hytrach na beth sydd o'i le. Rydym yn deall mai dim ond drwy roi cynnig ar syniadau newydd y gellir gwneud newidiadau ystyrlon a phan fyddwn yn methu, rydym yn methu'n gyflym ac yn dysgu sut i wella. Byddwn yn creu diwylliant diogel er mwyn i arloesedd gael ffynnu.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Cwsmeriaid sy'n ymgysylltu mwy
- Mwy o gydweithio â phartneriaid
- Mwy o fentrau cymunedol

## 03: Datblygu gwasanaethau pwrpasol

**"Rydym yn deall bod ein cwsmeriaid yn unigolion amrywiol sy'n creu cartrefi ac yn byw yn ein cymunedau."**

Mae angen i ni ddatblygu ein dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen ar ein cymunedau, a datblygu a meithrin partneriaethau i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Gan barhau â'n map cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, byddwn yn sicrhau bod ymdeimlad o degwch a chynhwysiant i'n cwsmeriaid a byddwn yn dathlu amrywiaeth ac yn herio stigma.

Ar hyn o bryd rydym yn gallu teilwra ein gwasanaethau o amgylch anghenion unigolion wrth iddynt ddod i'n sylw. Fodd bynnag, mae angen i ni ddatblygu ein gallu i adnabod rhagfarn ddiarwybod, awtomeiddio cyswllt torfol ar gyfer anghenion penodol, a normaleiddio sgyrsiau ynghylch amrywiaeth yn y Grŵp.

Drwy ddefnyddio ein data'n effeithiol, byddwn yn gallu adnabod y cwsmeriaid nad ydynt yn cysylltu â ni naill ai drwy beidio â rhoi gwybod am waith atgyweirio neu drwy beidio â chysylltu ag unrhyw wasanaethau. Byddwn yn ceisio ymchwilio i'r distawrwydd hwn a deall pam nad yw'r cwsmeriaid hyn yn dod i gyswllt a p'un a yw hynny oherwydd diffyg ymddiriedaeth, ymdeimlad o allgau, neu eu bod yn teimlo nad ydym yn gallu bodloni eu hanghenion. Byddwn yn cryfhau ein dull o ddiogelu ar draws y Grŵp i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn aros yn ddiogel a bod ein cymorth yn cael ei deilwra i'w hanghenion. Byddwn yn dangos ein hymrwymiad i ddiogelu drwy ein gwaith partneriaeth a thrwy achredu lle bo angen. Byddwn yn defnyddio ein data mewn ffordd ddeallus er mwyn deall y gwahaniaethau ar draws ein cymunedau, a byddwn yn gofyn am farn ein cwsmeriaid ynghylch sut y gallwn deilwra ein gwasanaethau. Drwy sicrhau bod data am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei gasglu'n aml ar draws y Grŵp, gallwn addasu'n fwy cyflym mewn meysydd lle mae ei angen. Bydd defnyddio ein data am gwsmeriaid yn ein helpu i ganfod anghenion, gosod blaenoriaethau, a nodi rhagfarnau cudd. Bydd deall pan fydd ein cwsmeriaid angen i ni ddarparu gwasanaethau yn helpu i archwilio lle gallai fod angen i ni addasu'r gwasanaethau a ddarperir, yn enwedig mewn perthynas â'n gwaith atgyweirio a chynnal a chadw a'n harchwiliadau cydymffurfiaeth statudol.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Sicrhau nad yw allgáu digidol yn rhwystr –** Rydym yn deall bod allgáu digidol yn gallu bod yn broblem i lawer o gwsmeriaid ac felly byddwn yn chwilio am atebion arloesol i sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl a bod cyfleoedd i sicrhau bod y rhai sy'n dymuno cael eu cynnwys yn ddigidol yn cael cymorth.
- **Datblygu Cynlluniau Gweithredu yn y Gymuned –** Gan fod ein cymunedau'n amrywiol, rydym yn deall y bydd gwahanol anghenion ynddynt. Bydd ein Partneriaid Tai Cymunedol, ynghyd â chydweithwyr, cwsmeriaid a phartneriaid eraill, yn datblygu ac yn arwain Cynlluniau Gweithredu yn y Gymuned i gyflawni'r hyn y mae cymunedau ei angen a'i eisiau. Byddwn yn datganoli cyllidebau i gydweithwyr gweithredol er mwyn galluogi hyn.
- **Normaleiddio sgyrsiau sy'n ymwneud ag amrywiaeth –** Er mwyn cael gwared ar stigma, mae'n rhaid i ni normaleiddio ein sgyrsiau am amrywiaeth a sicrhau bod ein cwsmeriaid sydd â nodweddion gwarchodedig yn teimlo'n hyderus y byddant yn cael eu trin yn deg a gyda charedigrwydd a pharch pan fyddant yn cysylltu ag unrhyw un o gydweithwyr Grŵp Cymoedd i'r Arfordir.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Tystiolaeth barhaus o gynnydd ein map cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Cynlluniau Gweithredu yn y Gymuned wedi'u datblygu gyda dadansoddiad o effaith
- Grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn ymgysylltu mwy
- Mwy o foddhad ymysg cwsmeriaid
- Mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau digidol



## 04: Gwasanaethau rhagweithiol

**"Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn meithrin perthynas â'n cwsmeriaid y tu allan i gyfnodau o argyfwng neu angen i ddatblygu capasiti ar gyfer y dyfodol."**

Mae anghenion ein cwsmeriaid yn newid o hyd ac mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn creu ac yn darparu gwasanaethau sy'n diwallu'r anghenion a'r blaenoriaethau hyn a'n bod yn gallu addasu'n gyflym pan fo angen heb gyfaddawdu ar gyflawni gwasanaeth rhagorol.

Drwy wrando ar ein cwsmeriaid gallwn nodi lle gallai fod angen gwneud newidiadau a byddwn yn defnyddio ein Bwrdd Prosiect Adfywio a'n Bwrdd Prosiect Rhagoriaeth Cwsmeriaid fel mecanwaith ar gyfer y newid hwn.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio'n rhagweithiol mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod ein gwasanaethau ar gael yn rhwydd a'n bod yn datblygu "dull dim drws anghywir" fel bod pob cydweithiwr yn meddu ar yr adnoddau a'r hyder i feithrin perthynas â'n cwsmeriaid, beth bynnag fo'i rôl.

Drwy ddangos ein hymrwymiad i ddod yn bartner dibynadwy, byddwn yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i fod yn bartner delfrydol ar gyfer datblygu gwasanaethau newydd, yn enwedig mewn perthynas â chynghreiriau iechyd a thai, gan gynyddu'r ddarpariaeth o gymorth sy'n gysylltiedig â thai i'n cwsmeriaid a nodi lle gallwn gefnogi ein partneriaid awdurdod lleol i ddarparu llety ychwanegol sy'n canolbwyntio ar y cartref iawn, yn y lle iawn, gyda'r cymorth iawn.

Bydd y Grŵp hefyd yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd lle gallwn fod yn rhagweithiol yn ein dull o gefnogi ein cwsmeriaid i fanteisio ar gyfleoedd addysg a gwirfoddoli a llwybrau at lwyddiant mewn cyflogaeth.

Mae'n hanfodol cyfathrebu â'n cwsmeriaid drwy gydol y strategaeth, ond byddwn yn rhagweithiol yn ein dull gweithredu, yn enwedig wrth roi gwybod am ein rhaglen waith arfaethedig a'n cynlluniau adfywio ynghyd â dathlu momentau calonogol.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Mabwysiadu dull dim drws anghywir –** Buddsoddi yn ein cydweithwyr i sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid yn ogystal â sicrhau bod ein cydweithwyr yn teimlo'n hyderus a'u bod yn cael eu cefnogi.
- **Cyfathrebu rhagweithiol ar draws y Grŵp –** Byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i roi cyhoeddusrwydd i'n cynlluniau ar draws y grŵp, yn enwedig mewn meysydd fel rhaglenni gwaith arfaethedig, gwaith adfywio a'n rhaglenni datblygu. Pan fydd angen newid cynlluniau, byddwn yn agored, yn onest ac yn barchus.
- **Gwrando ar ein cwsmeriaid –** Drwy ein Bwrdd Prosiect Profiad Cwsmeriaid, byddwn yn sicrhau nad ydym yn aros am gyfnodau o argyfwng i wrando ar ein cwsmeriaid a'n bod yn addasu ein gwasanaethau pan fo angen.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Gostyngiad mewn achosion cyflwr gwael
- Mwy o foddhad ymysg cydweithwyr
- Mwy o foddhad ymysg cwsmeriaid
- Mwy o gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth

## 05: Gwasanaethau dan arweiniad y gymuned

**"Er mwyn adfywio ein cymunedau'n llwyddiannus, mae'n rhaid i ni weithio gyda holl aelodau'r gymuned a chlywed eu lleisiau."**

Fel y landlord cymdeithasol mwyaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr, rydym yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o greu lleoedd a sicrhau ein bod nid yn unig yn datblygu cymunedau gwydn ond ein bod, drwy ein dull gweithredu, yn cefnogi ein cwsmeriaid i gyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol ein cymunedau.

Drwy wreiddio ein cydweithwyr yn eu cymunedau, bydd ein cydweithwyr ym maes tai yn arwain y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Gweithredu yn y Gymuned a fydd yn bwydo i'r Bwrdd Prosiect Adfywio a'r Bwrdd Prosiect Profiad Cwsmeriaid i wneud newidiadau ystyrlon yn ein cymunedau.

Drwy wrando ar bob llais yn ein cymuned, byddwn yn adeiladu ar ein mentrau creu lleoedd gan chwilio am ragor o gyfleoedd i sicrhau cyllid grant i gefnogi ein prosiectau dan arweiniad y gymuned gan sicrhau ein bod wedi ymrwymo i gyfrannu at yr economi sylfaenol.

Drwy fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar gryfderau, byddwn yn troi ein sylw at sut y gallwn gyfrannu'n gadarnhaol at ein cymunedau gan ganolbwyntio ar ddefnyddio cryfderau ein cwsmeriaid, ein partneriaid a'n cydweithwyr. Rydym yn cydnabod bod ein cymunedau'n cynnwys y rhai nad ydynt yn gwsmeriaid uniongyrchol i'r Grŵp, ond byddwn yn sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed yn ein cymunedau er mwyn cyd-gynhyrchu ein gwasanaethau.

Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn cydweithio â phartneriaid o'r un anian sy'n gallu ychwanegu gwerth at ein cymunedau i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gysylltiedig â'u cymunedau a'n bod yn cael ein hystyried yn bartner gwerthfawr gan ein cwsmeriaid i helpu i gyflawni a sbarduno newid cadarnhaol ac ystyrlon.

Pan fydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch ein cartrefi a'n cymunedau, byddwn yn dryloyw, yn barchus ac yn garedig wrth ein cwsmeriaid a'n cymunedau, a byddwn yn ganolog yn y gwaith o gyflwyno'r negeseuon hynny.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau gyda'n cymunedau –** Canolbwyntio ar gryfderau ein cymunedau a gweithio gyda nhw yn ystod y cyfnodau cadarnhaol i feithrin ymddiriedaeth ac ymdeimlad o berthyn. Helpu ein cymunedau i gysylltu â'i gilydd, rhannu profiadau, a rhoi adborth i Cymoedd i'r Arfordir.
- **Cydweithio â'r partneriaid cywir i'n cymunedau –** Drwy weithio gyda'n cwsmeriaid, byddwn yn nodi gyda phwy y mae angen i ni gydweithio yn y gymuned ehangach i symud ymlaen â'n gwasanaethau. Wrth i ni symud i feysydd gwahanol newydd byddwn yn chwilio am gyfleoedd i greu partneriaethau newydd.
- **Mynd i'r afael â sgyrsiau anodd mewn ffordd garedig –** Rydym am fod yn dryloyw, yn deg ac yn gyfrifol yn gymdeithasol ym mhob un o'n sgyrsiau â'n cwsmeriaid, ac ni fyddwn yn osgoi cael sgyrsiau anodd gyda'n cwsmeriaid a'n cymunedau pan fydd angen gwneud newidiadau. Byddwn yn trin ein cymunedau â charedigrwydd a pharch a byddwn yn sicrhau ein bod yn gwrando ar eu barn ac yn eu cynnwys lle bo modd yn ein prosesau gwneud penderfyniadau.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:


- Mwy o foddhad ymysg cwsmeriaid (yn benodol y gymdogaeth fel lle i fyw)
- Mwy o gydweithio â phartneriaid



Stategaeth

# Digidol a Thechnolegol

## Grymuso poble.
## Gwella gwasanaethau.
## Atebion clyfar.



# Strategaeth Ddigidol a Thechnoleg 2026-2031

## Cyd-destun

Pwrpas craidd y Strategaeth Ddigidol a Thechnoleg yw galluogi ein cydweithwyr i wneud eu gwaith a chynnig cyfleoedd iddynt ychwanegu mwy fyth o werth, a gwella bywydau ein cwsmeriaid drwy ddefnyddio technoleg a data.

**"Dylai technoleg alluogi'n ddi-dor heb gael ei theimlo, ac mae'n rhaid i ddata fod yn lân, yn gywir ac yn ddiogel."**

Gyda'i gilydd, bydd hyn yn galluogi arweinwyr a chydweithwyr Cymoedd i'r Arfordir i wneud penderfyniadau cyflym, cywir a gwybodus, a dylanwadu ar y penderfyniadau hynny heb rwystr technolegol, a chyda chyflymiad technolegol.

Mae gennym ddyletswydd i fod yn fwy rhagweithiol fyth, gan ddefnyddio technoleg a data i ymyrryd cyn gynted â phosibl mewn sefyllfaoedd sy'n dirywio, a lle bo modd, i osgoi dirywiad. Yn anad dim, mae technolegau fel Deallusrwydd Artiffisial a'r Rhyngrwyd Pethau yn cynnig nifer o gyfleoedd o ran rhagfynegi digwyddiadau a gweledEdd amgylchedd cwsmeriaid.

Rhaid i ymdrechion i gynyddu dyfnder ein harbenigedd, ac felly llwyddiant o ran defnyddio technoleg a data, gael eu cefnogi gan brosesau datblygu sgiliau a chyflogi strategol, gan ddod â gwybodaeth goll i mewn ar yr un pryd â buddsoddi mewn datblygu tîm a datblygu dealltwriaeth grŵp cyfan o'r gallu i greu.

Mae'r twf esbonyddol yng ngallu Deallusrwydd Artiffisial yn cynrychioli cyfleoedd a bygythiadau. Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae'n debygol y bydd disgwyliad sylfaenol i wneud defnydd effeithiol o ddeallusrwydd artiffisial; heb wneud hynny, ni all sefydliad obeithio cystadlu, ac mae perygl iddo gael ei adael ar ôl wrth i'r diwydiant ehangach ddatblygu. At hynny, mae ymosodiadau seiber a alluogir gan ddeallusrwydd artiffisial yn tyfu'n gyflym o ran soffistigedigrwydd, ac mae diffyg amddiffyniad cyfatebol sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial yn golygu y bydd Cymoedd i'r Arfordir bron yn gwbl agored i niwed.

Yn fwy dramatig byth yw'r ffaith ei bod yn dod yn fwyfwy tebygol y bydd deallusrwydd artiffisial, yn ystod y 5 i 7 mlynedd nesaf (erbyn ~2032), yn tarfu'n sylfaenol ar economïau a chymdeithasau, gyda chanlyniadau anrhagweladwy. Mae hyn yn erbyn cefndir o geowleidyddiaeth sy'n fwyfwy ansefydlog gyda chyfranogwyr anrhagweladwy sy'n dylanwadu'n sylweddol ar ddulliau llywodraethu, cyfeiriad a'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial. Felly, mae ein gallu i gynllunio'n bragmatig ar gyfer canlyniadau eithafol o'r fath yn gyfyngedig, ac mae ffocws ar ystwythder a chyflymder ar lefel sefydliadol a thechnegol yn hanfodol.

Ar nodyn mwy cadarnhaol ac yn y tymor byr i ganolig (<3 blynedd) mae deallusrwydd artiffisial yn gyfle i ddeall, manteisio a defnyddio ein data'n gyflymach ac yn fwy effeithiol byth, gan sicrhau camau breision o ran gallu er mwyn gwella bywydau ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr yn ddramatig.

Gan ystyried yr holl bwyntiau hyn, bydd deallusrwydd artiffisial yn dod yn gonglfaen allweddol yn ystâd dechnoleg Cymoedd i'r Arfordir, ac mae'n rhaid i ddata glân a chywir fod yn sail i hynny. Fodd bynnag, mae cymaint o botensial am newid â gwerth cadarnhaol, felly bydd yn hanfodol sefydlu dulliau llywodraethu o ran moeseg deallusrwydd artiffisial/achos defnydd/dewis o ran adnoddau.

O ran ein cydweithwyr, mae galw mawr eisoes am y sgiliau y bydd eu hangen ar Cymoedd i'r Arfordir dros y pum mlynedd nesaf, yn enwedig o ran y Cwmwl, Deallusrwydd Artiffisial ac Awtomeiddio; er bod argaeledd galluoedd penodol yn cynyddu ac yn gostwng, mae'r llanw cenedlaethol cynyddol o aeddfedrwydd digidol a data yn debygol o olygu y bydd y galw'n parhau i fod yn fwy na'r cyflenwad ar draws llawer o'r rolau hyn.

Mae Cymoedd i'r Arfordir yn wynebu heriau wrth gystadlu am rolau y mae galw mawr amdanynt yn sgil ein lleoliad daearyddol a'n gallu i gystadlu ar gyflogau, yn enwedig o'i gymharu â'r Sector Preifat, a all ysgogi chwyddiant cyflogau artiffisial. Fodd bynnag, rydym hefyd yn wynebu cyfleoedd gyda phethau fel costau byw is i'r gorllewin o Gaerdydd, apêl diwylliant cadarnhaol ein sefydliad a'i werth cymdeithasol ychwanegol, a'n strategaeth sy'n canolbwyntio mwy ar y byd digidol o'i chymharu â sefydliadau cymheiriaid lleol. Felly, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar ddull hybrid sy'n uno ymdrechion i uwchsgilio staff mewnol yn briodol ac yn gyflym, gan fanteisio ar gynlluniau fel rhaglenni i raddedigion, cynlluniau sydd â'r nod o wneud defnydd o byllau nad ydynt yn nodweddiadol (menywod ym maes technoleg, dychwelyd i weithio, ac ati), a phrynu sgiliau allanol i mewn, boed hynny drwy bartneru neu recriwtio.

Gyda'r twf esbonyddol parhaus mewn galluoedd deallusrwydd artiffisial, mae'n debygol y bydd llawer o'r sgiliau technegol a oedd yn arfer bod ar gael dim ond ar ôl blynyddoedd o astudio ac ymarfer

ar gael yn ehangach i'r gweithlu, gan sbarduno newid tuag at sgiliau ymgysylltu cyffredinol â deallusrwydd artiffisial dros sgiliau technoleg penodol a ddysgwyd (er enghraifft, ystyrir ei bod yn realistig tybio y bydd deallusrwydd artiffisial, o fewn 3-5 mlynedd, yn gallu ysgrifennu cod meddalwedd yn fwy effeithlon a chyda llai o fygiau na'r datblygwyr meddalwedd gorau ar y blaned, ac felly bydd bod yn gyfarwydd â defnyddio deallusrwydd artiffisial yn rhywbeth a ddymunir yn fwy na'r gallu i ddatblygu meddalwedd).

Yn olaf, mae'n bwysig cydnabod nad yw pob un o'n cwsmeriaid yn gyfarwydd nac yn alluog yn ddigidol ac felly mae'n rhaid i ni deilwra ein huchelgeisiau i'w cefnogi, gan gadw llwybrau nad ydynt yn ddigidol ar gyfer cwsmeriaid sydd, serch hynny, yn arwain at yr un canlyniadau drwy'r un penderfyniadau.

Mae disgwyliadau cwsmeriaid ynghylch eu rhyngweithio digidol â darparwyr gwerth yn cael eu gosod fwyfwy gan wasanaethau fel Amazon, DHL a Netflix: digidol frodorol, symudol gyfeillgar, greddfol ac yn gynyddol gain, ond gyda data cywir a chyfredol am gwsmeriaid, sydd ar gael pryd bynnag y bydd y cwsmer yn chwilio amdano. Dyma'r safon sylfaenol y mae'n rhaid i Cymoedd i'r Arfordir anelu ati mewn diwydiant lle mae defnydd swyddogaethol ond iwtilitaraidd ac anreddfol yn norm.

## Ein huchelgais

Ein gweledigaeth yw darparu atebion technoleg sy'n gwella bywydau cwsmeriaid a phrofiadau cydweithwyr; byddant yn seiliedig ar sylfeini cadarn, diogel a chywir sy'n esblygu ac yn arloesi'n gyflym er mwyn gwella gwerth yn barhaus. Mae Cymoedd i'r Arfordir yn ei gyfnod twf ac felly mae'r arloesi hwn ochr yn ochr â buddsoddiad mewn data a thechnoleg yn hanfodol i gyflawni ei uchelgeisiau. Mae'n rhaid i ni fod yn feiddgar ac yn uchelgeisiol.

Gwir bwrpas pob technoleg yw datgloi galluoedd dyn a dyrchafu'r profiad dynol a diogelwch pobl. O ganlyniad, mae'n rhaid i'n technoleg a'n data gyd-fynd â'r nodau hyn, gan sicrhau eu bod yn gatalyddion, ac

nid yn rhwystrau. Y llinyn aur, felly, yw bod popeth a wnawn mewn perthynas â data a thechnoleg wedi'i anelu at gael gwared ar rwystrau, datgloi galluoedd, a gwella profiad a diogelwch pobl, a bod pob cam gweithredu'n cyflawni'r nodau hynny.

## Ein dull gweithredu

Er mwyn darparu ein gwasanaethau yn y ffordd fwyaf llwyddiannus, bydd Cymoedd i'r Arfordir yn ymgysylltu â chwsmeriaid ac yn rhyngweithio â nhw yn y ffyrdd sydd fwyaf cyfarwydd iddynt ac sy'n golygu'r amser ac ymdrech lleiaf posibl iddynt.

Er nad yw rhyngweithio digidol yn unig yn addas i bob un o'n cwsmeriaid (neu, yn wir, pob math o ryngweithio) bydd dal angen defnyddio ein data a'n dealltwriaeth o'n cwsmeriaid a'u hamgylchedd i greu gwasanaethau digidol greddfol, cain a chadarn, sy'n seiliedig ar anghenion y cwsmeriaid hynny, ac sydd wedi'u teilwra i'n graddfa a chyllideb, gan gadw teithiau cyfochrog nad ydynt yn ddigidol ar gyfer y cwsmeriaid sy'n anghyfarwydd, yn anghyfforddus neu sy'n methu â defnyddio technoleg.

Mae'n rhaid i ni hefyd wneud hynny mewn ffordd sy'n dal gafael ar y lefel fwyaf o reolaeth dros ein dyfodol digidol ein hunain, a'r gallu mwyaf i ryngweithredu ac osgoi cloi gwerthwyr ar gyfer swyddogaethau craidd er mwyn hwyluso dyfodol digidol y gellir ei addasu'n gyflym, yn effeithiol ac yn effeithlon i gyd-fynd â gwahanol dechnolegau, systemau a gwerthwyr heb darfu.

Mae'r gallu i wneud hynny'n gofyn am sylfeini cadarn, modwlaredd, a dealltwriaeth ddofn o'n cwsmeriaid a'r amgylcheddau lle maent yn byw.

## Ein blaenoriaethau

Mae themâu trawsbynciol drwy'r strategaeth gyfan. Fodd bynnag, er mwyn bod yn glir, bydd ein huchelgeisiau ar gyfer digidol, data a thechnoleg yn cael eu cyflawni drwy ganolbwyntio ar yr wyth blaenoriaeth a ganlyn; fe'u mabwysiadir ar draws pob rhan o Grŵp Cymoedd i'r Arfordir i sicrhau profiad cyson i'n cwsmeriaid, ein cymunedau a'n rhanddeiliaid:

1. Sylfeini yn gyntaf
2. Seiliedig ar ddata
3. Canolbwyntio ar gwsmeriaid
4. Awtomeiddio'n weithredol
5. Diogel drwy ddylunio
6. Cyflymu ac arloesi
7. Deallusrwydd artiffisial lle mae bod dynol yn rhan o'r prosesau
8. Digidol yn bennaf

Bydd canlyniadau ac elfennau i'w cyflawni penodol yn addasu wrth i ni dyfu.



## 01: Sylfeini yn gyntaf

**"Rydym yn adeiladu ac yn dychwelyd yn rheolaidd i atgyfnerthu sylfeini cadarn, gan gydnabod na allwn ddarparu gwir werth i'n cwsmeriaid hebddynt."**

Mae hynny'n golygu ein bod yn adeiladu ac yn caffael atebion technoleg sy'n cyd-fynd ag arferion gorau'r diwydiant (cwmwl yn gyntaf, ffynhonnell agored neu safon de-facto, modiwlar ac wedi'i alluogi gan ryngwyneb rhaglennu cymwysiadau), yn eu teilwra i'r radd leiaf bosibl, ac yn sicrhau ei bod hi mor syml â phosibl i gyflawni'r gofynion a ddymunir. Mae hefyd yn golygu ein bod yn profi'n rheolaidd ac yn gyson, gan flaenoriaethu awtomeiddio profion ar gyfer cyflymder, darpariaeth ac ailadroddadwyedd, ac rydym yn sicrhau bod gweithgareddau cynnal a chadw a chyweirio dyledion technegol yn cael eu blaenoriaethu'n briodol i sicrhau bod ein hystâd technoleg yn rhedeg yn esmwyth ac yn effeithlon. Rydym yn adeiladu timau sy'n perfformio'n dda drwy empathi, ymddiriedaeth, grymuso ac atebolrwydd, gan dynnu i'r un cyfeiriad gyda chyd-gefnogaeth a chydnabyddiaeth, mewn amgylchedd o ddiogelwch seicolegol lle mae camgymeriadau'n cael eu trin fel cyfleoedd i ddysgu.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Mwy o sefydlogrwydd – mwy o amser lle mae'r system yn weithredol (Argaeledd Gwasanaethau), llai o ddigwyddiadau'n codi fesul system
- Arolygon boddhad cwsmeriaid yn dangos gwell bodlonrwydd
- Arolygon boddhad staff yn dangos gwell bodlonrwydd
- Llai o ddiffygion o ran datblygiad meddalwedd yn cael eu codi
- Datblygu meddalwedd yn gyflymach
- Gwell cyflymder a rhwyddineb adfer ar ôl trychineb

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Safoni a symleiddio ein stac technoleg –** Byddwn yn nodi ac yn rhesymoli ein systemau presennol, gan sicrhau bod gennym amgylchedd technoleg effeithlon a darbodus. Byddwn yn blaenoriaethu atebion Meddalwedd fel Gwasanaeth (SaaS) yn y cwmwl lle bo modd, gan leihau cymhlethdod a gorbenion ein seilwaith, gydag atebion parod yn cael eu teilwra cyn lleied â phosibl, neu lle byddwn yn adeiladu ein rhai ein hunain, eu cadw'n syml, yn unol â safonau'r diwydiant, ac yn wydn.
- **Buddsoddi mewn prosesau cynnal a chadw rhagweithiol a chyweirio dyledion technegol –** Byddwn yn sefydlu amserlen reolaidd ar gyfer mynd i'r afael â dyled technegol, gan sicrhau bod ein systemau'n sefydlog ac yn perfformio. Byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i fonitro ein seilwaith a'n rhaglenni, gan fynd i'r afael â phroblemau posibl cyn iddynt ddod yn broblemau critigol, a byddwn yn adolygu ein systemau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r diben ac yn cyd-fynd ag arferion gorau.
- **Profi ac ymarfer ein technolegau a'n prosesau adfer ar ôl trychineb yn rheolaidd –** Rydym yn sefydlu Amcan Amser Adfer ac Amcan Pwynt Adfer clir ar gyfer pob system y mae gennym reolaeth adfer ar ôl trychineb drostynt, a hynny'n seiliedig ar ofynion y busnes, ac rydym yn cynnal ymarferion adfer ar ôl trychineb o leiaf bob chwe mis ochr yn ochr â phrofion ategu ac adfer dan reolaeth bob chwarter.
- **Datblygu a gweithredu prosesau a threfniadau llywodraethu clir ac effeithiol –** Byddwn yn adolygu ac yn cofnodi ein prosesau, gan sicrhau eu bod yn effeithlon a'u bod yn cefnogi ein nodau. Byddwn yn sefydlu trefn lywodraethu lle bo angen, ond byddwn yn cael gwared arni pan fydd yn dod yn rhwystr. Byddwn yn meithrin diwylliant o welliant parhaus, lle byddwn yn ailedrych ar ein prosesau'n rheolaidd ac yn eu mireinio ar sail adborth ac anghenion sy'n newid.



## 02: Data Driven

**"Rydym yn cynnwys cylchoedd adborth ym mhopeth a wnawn fel bod modd i ni gywiro'r trywydd yn gynnar."**

Rydym yn defnyddio data i lywio ein penderfyniadau, gan fesur ein llwyddiant yn erbyn meini prawf a bennwyd ymlaen llaw ac yn dychwelyd dros amser i adeiladu tueddiadau. Byddwn yn sicrhau bod ein data'n gywir, yn lân, yn ddiogel ac yn cael ei gynrychioli gan un ffynhonnell lle bo hynny'n bosibl. Bydd hynny'n caniatáu i ni ddefnyddio'r data hwnnw i wneud penderfyniadau cywir a gwybodus ar draws y sefydliad yn ogystal â chyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a moesol i ddiogelu data ein cwsmeriaid.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Sefydlu fframwaith llywodraethu data cadarn –** Byddwn yn rhoi perchnogaeth data glir, prosesau rheoli ansawdd, a mesurau diogelwch ar waith i sicrhau bod ein data yn ddibynadwy, yn gywir, ac yn cael ei ddiogelu. Bydd hyn yn cynnwys diffinio safonau data yn ogystal â chynnal archwiliadau ac asesiadau rheolaidd o'n harferion rheoli data.
- **Gwella hygyrchedd a defnyddioldeb data –** Byddwn yn buddsoddi mewn adnoddau a thechnolegau sy'n ei gwneud hi'n haws cael gafael ar ein data, ynghyd â'i ddeall, ei ddefnyddio a'i ddiweddaru. Mae hyn yn golygu darparu hyfforddiant, creu geiriaduron a dogfennau data, a chreu dangosfyrddau greddfol ac adroddiadau sy'n rhoi gwybodaeth y gellir gweithredu arni. Byddwn hefyd yn mynd ati i integreiddio ein ffynonellau data, gan leihau seilos data a safbwyntiau ar draws y sefydliad o'n gweithrediadau a'n cwsmeriaid.
- **Meithrin diwylliant sy'n seiliedig ar ddata –** Byddwn yn grymuso ein cydweithwyr i ddefnyddio data yn eu gwaith o ddydd i ddydd, gan roi'r adnoddau, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata. Byddwn hefyd yn dathlu llwyddiannau ac yn rhannu arferion gorau i annog diwylliant o ddysgu parhaus a gwelliannau mewn perthynas â data.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Tuedd o wella Aeddfedrwydd Data o'i gymharu â'r llinell sylfaen gan ddefnyddio metrigau safonol y diwydiant.
- Tuedd o wella Cywirdeb Data – cymryd samplau data ar hap yn rheolaidd a mesur pa mor aml maent yn gwyro oddi wrth y gwir.
- Tuedd o wella Glendid Data – cymryd samplau data ar hap yn rheolaidd o sawl ffynhonnell a mesur i ba raddau y maent yn anghyson.
- Gwella cymhareb data dyblyg un ffynhonnell (data sy'n cael ei gadw mewn sawl lle ond sy'n cael ei ddiweddaru o un ffynhonnell) o'i gymharu â data dyblyg go iawn.
- Defnyddio data'n amlach wrth wneud penderfyniadau.



## 03: Canolbwyntio ar gwsmeriaid

**“Rydym yn sicrhau bod ein cwsmeriaid wrth galon popeth a wnawn.”**

Nod pob ymdrech yw creu gwerth i’n cwsmeriaid a chyflawni ein strategaeth Diogel a Hapus. Mae rhyngweithio digidol yn cael ei adeiladu ochr yn ochr â’n cwsmeriaid, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu gan yr hyn rydym yn ei ddarparu, ac rydym yn gofyn am adborth yn rheolaidd er mwyn gallu cywiro’r trywydd.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Cwsmeriaid yn ymwneud â dylunio, profi a mireinio ein hatebion i gwsmeriaid
- Arolygon o foddhad cwsmeriaid (wedi’u cynnwys yn y llwyfannau sy’n cael eu mesur os oes modd) yn dangos gwell boddhad
- Mwy o awgrymiadau gan gwsmeriaid yn cael eu defnyddio a’u hadrodd yn ôl i gwsmeriaid yn “Fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni”.



### Rydym wedi ymrwymo i’r canlynol:

- **Mynd ati i gynnwys cwsmeriaid yn y gwaith o ddylunio a phrofi ein hatebion digidol –** Byddwn yn sefydlu mecanweithiau ar gyfer adborth gan gwsmeriaid, profion defnyddwyr, a chyd-greu drwy gydol cylch bywyd datblygu ein llwyfannau digidol. Gall hyn gynnwys creu grwpiau defnyddwyr, cynnal arolygon, a rhedeg rhaglenni peilot i gasglu gwybodaeth a sicrhau bod ein hatebion wir yn diwallu anghenion cwsmeriaid.
- **Sicrhau bod ein gwasanaethau digidol yn hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio ar gyfer pob demograffeg cwsmeriaid –** Byddwn yn glynu wrth safonau hygyrchedd ac arferion gorau er mwyn sicrhau bod pob cwsmer yn gallu defnyddio ein llwyfannau digidol, beth bynnag fo’u sgiliau neu eu galluoedd technegol. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner er mwyn helpu i wella llythrennedd digidol ein cwsmeriaid sydd angen help i ddefnyddio gwasanaethau digidol, gan sicrhau bod llwybrau cyfochrog, nad ydynt yn ddigidol, yn dal ar gael.
- **Ceisio, dadansoddi a gweithredu ar adborth cwsmeriaid yn rheolaidd er mwyn gwella ein gwasanaethau –** Byddwn yn creu cylchoedd adborth o fewn ein llwyfannau digidol ac yn cynnal arolygon a chyfweliadau rheolaidd i ddeall lefelau boddhad cwsmeriaid. Byddwn yn dadansoddi’r adborth hwn ac yn ei ddefnyddio i lywio ein penderfyniadau am welliannau i wasanaethau, nodweddion newydd, a phrofiad cwsmeriaid yn gyffredinol. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i’n cwsmeriaid am newidiadau a gwelliannau, gan ddangos ein bod yn gwerthfawrogi eu mewnbwn a’n bod yn gweithio i fynd i’r afael â’u pryderon.



## 04: Awtomeiddio’n weithredol

**“Ein nod yw tynnu pobl o brosesau robotig, a chael peiriannau i siarad â pheiriannau fel bod gwybodaeth yn symud yn gyflym ac yn gywir, gan adael i bobl ychwanegu syniadau gwreiddiol a gwerth cymdeithasol.”**

Mae technoleg yn symud yn barhaus o fod yn adnodd anhylaw tuag at fod yn rhyngwyneb anweledig rhwng pobl a gwybodaeth.

Rydym yn manteisio ar dechnolegau fel Awtomeiddio Prosesau Robotig, Awtomeiddio Deallus, Deallusrwydd Artiffisial a llwyfannau datblygu cod isel a dim cod. Ein nod yw caniatáu i gydweithwyr a chwsmeriaid gael gafael ar wybodaeth a chyflawni amcanion yn y fformat a’r cyfrwng sy’n gweddu orau iddynt gan ddefnyddio iaith naturiol a rhyngweithiadau sy’n debyg i rai pobl.

### Rydym wedi ymrwymo i’r canlynol:

- **Nodi ac awtomeiddio prosesau ailadroddus â llaw lle bo modd –** Byddwn yn ymgysylltu ag adrannau ar draws y busnes i nodi llifoedd gwaith sy’n cymryd amser ac sy’n dueddol o fod yn wallus, ac yn eu blaenoriaethu yn ôl yr amser a arbedwyd o’i gymharu â’r ymdrech i awtomeiddio, ac yn rhoi atebion awtomeiddio ar waith i symleiddio’r prosesau hyn, gan ryddhau amser cydweithwyr ar gyfer gweithgareddau mwy cymhleth sy’n ychwanegu gwerth.
- **Ymdrechu i wneud technoleg yn rhyngwyneb anweledig, lle mae awtomeiddio’n galluogi mynediad di-dor at wybodaeth a gwasanaethau –** Byddwn yn canolbwyntio ar adeiladu a gweithredu atebion awtomeiddio sy’n lleihau gwrthdaro rhwng defnyddwyr ac sy’n gwneud i dechnoleg deimlo’n llai fel adnodd ac yn fwy fel mynediad di-dor at wybodaeth heb rwystr technolegol.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Cynnydd yn nifer y prosesau llwyddiannus.
- Gwella’r duedd o ran yr amser sy’n cael ei arbed drwy awtomeiddio.
- Adborth cadarnhaol ar systemau awtomatig gan gydweithwyr a chwsmeriaid.
- Arbedion cost wedi’u cyflawni drwy awtomeiddio.
- Cynyddu nifer yr amcanion y gellir eu cyflawni drwy geisiadau iaith naturiol am dechnoleg.
- Cynyddu canran yr amser sy’n cael ei dreulio ar dasgau sy’n gofyn am farn a rhyngweithio gan bobl o’i gymharu â gweithgareddau gweinyddol tebyg i roboteg.



## 05: Diogel drwy Ddylunio

**"Mae diogelwch wrth wraidd ein holl dechnoleg."**

Mae popeth newydd yn cael ei adeiladu gyda diogelwch mewn golwg, ac rydym yn gwthio diogelwch i'r chwith yn barhaus (yn gynt) yn ystod ein hoes cyflenwi yn hytrach nag ôl-osod yn nes ymlaen. Rydym yn gwreiddio diogelwch yn ein gweithdrefnau a'n hymddygiad, gan ddarparu hyfforddiant a llif cynyddol o ymwybyddiaeth o ddiogelwch ymysg ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Mwy o aeddfedrwydd seiber gan ddefnyddio metrigau safonol y diwydiant.
- Gostyngiad yn y duedd o ran nifer y digwyddiadau diogelwch (sylwer: wrth i'r gwelededd gynyddu rydym yn disgwyl gweld cynnydd cynnar yn nifer y digwyddiadau, ac yna gostyngiad graddol).
- Gwella perfformiad o ran datrys gwendidau diogelwch. Mae amseroedd datrys byrrach yn dangos gwelliant.
- Mae archwiliadau diogelwch a phrofion treiddio yn dangos gostyngiad yn nifer y diffygion (a/neu ddiffygion sy'n llai difrifol yn gyffredinol).

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Rhoi diogelwch ar waith yn ddiofyn ym mhob un o'n cynnyrch technoleg -** Byddwn yn sicrhau bod diogelwch yn rhan annatod o'r gwaith o gynllunio, dylunio a gweithredu pob system a thechnoleg newydd. Mae hyn yn golygu asesu diogelwch cynhyrchion newydd yn drylwyr (gan gynnwys y rhai rydym yn eu hadeiladu), rhoi arferion codio diogel ar waith, a chreu dulliau dilysu, rheolaethau mynediad ac amgryptio cadarn o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na'u hychwanegu fel ôl-ystyriaeth.
- **Darparu rhaglenni ymwybyddiaeth a hyfforddiant diogelwch parhaus i'n holl gydweithwyr a chwsmeriaid –** Byddwn yn rhoi i'n cydweithwyr a'n cwsmeriaid yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddiogelu eu hunain a'n sefydliad rhag bygythiadau i ddiogelwch. Mae hyn yn cynnwys sesiynau hyfforddi rheolaidd, efelychiadau gwe-rwydo, a chanllawiau clir ar sut i nodi a rhoi gwybod am weithgarwch amheus, gyda'r nod o ddatblygu ymwybyddiaeth arferol o ddiogelwch.
- **Monitro, profi a gwella ein cyflwr o ran diogelwch yn barhaus –** Byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am wendidau, cynnal profion treiddio rheolaidd, a chynnal archwiliadau diogelwch i sicrhau bod ein systemau'n ddiogel rhag bygythiadau sy'n dod i'r amlwg. Byddwn hefyd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y tueddiadau diogelwch a'r arferion gorau, gan addasu ein dulliau diogelwch yn unol â hynny.



## 06: Cyflymu ac Arloesi

**"Rydym yn chwilio am gyfleoedd i gyflymu drwy gael gwared ar rwystrau, lleihau ffrithiant a chynyddu llif, ac rydym yn manteisio ar gyfleoedd o'r fath."**

Os oes angen, rydym yn arafu i gyflymu – rydym bob amser yn gwneud amser i stopio ac addasu. Rydym yn arbrofi'n weithredol, gan gael gwared ar yr hyn nad yw'n gweithio yn gyflym a mabwysiadu'r pethau sy'n gweithio.

Rydym yn mynd i'r afael â phroblemau gydag amrywiaeth o alluoedd i'w datrys yn gynt, ac yn dod o hyd i atebion arloesol, gan ailadrodd yn gyflym gyda meddylfryd ystwyth. Rydym yn dod â phartneriaid i mewn lle bo hynny'n ymarferol i ychwanegu arbenigedd penodol i symud pethau ymlaen, gan fabwysiadu technolegau newydd gyda meddylfryd sy'n briodol i risg ac sy'n ein cyflymu at ein nodau strategol.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Llai o amser mewn cylch (y cyfnod o syniad i gyflawni) a gwell effeithlonrwydd cylch (amser a dreulir yn gwneud dim o'i gymharu â'r amser a dreulir yn gynhyrchiol).
- Timau traws-swyddogaethol wedi'u ffurfio i ddatrys problemau.
- Adborth cadarnhaol gan aelodau tîm a phartneriaid ar effeithiolrwydd cydweithio a datrys problemau.
- Adborth cadarnhaol gan gwsmeriaid ar effeithiolrwydd y galluoedd newydd i gwsmeriaid.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Sefydlu cyfnodau arbrofi penodol –** Byddwn yn neilltuo amser ac adnoddau penodol i dimau brofi syniadau, technolegau a phrosesau newydd. Bydd hyn yn cynnwys gosod amcanion clir, adeiladu prototeipiau neu brofion o gysyniad, a chasglu data i asesu llwyddiant pob arbrawf. Byddwn yn creu lle diogel ar gyfer methiant, gan gydnabod na fydd pob arbrawf yn llwyddo, ond mae hyd yn oed methiannau yn gyfle i ddysgu.
- **Meithrin diwylliant o gydweithio i ddarparu atebion arloesol –** Byddwn yn mynd ati i annog cydweithio rhwng gwahanol dimau ac adrannau, gan ddod â safbwyntiau a sgiliau amrywiol at ei gilydd i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth. Mae hyn yn cynnwys creu cyfleoedd i gydweithwyr weithio ar brosiectau y tu allan i'w rolau arferol, cynnal gweithdai arloesi, a sefydlu grwpiau ar-lein i rannu syniadau ac arferion gorau.
- **Mynd ati i chwilio am gyfleoedd arloesol yn y cyd-destun cyflenwi a chymheiriaid –** Byddwn yn mynd ati i chwilio'r diwydiannau Tai a TG am ddatblygiadau y gallwn eu defnyddio i symud ymlaen. Mae hyn yn cynnwys mynd i ddigwyddiadau'r diwydiant, archwilio technolegau sy'n dod i'r amlwg, a gwerthuso partneriaid posibl ar sail eu gallu i gefnogi ein nodau strategol ac ychwanegu gwerth at ein gwasanaethau.

## 07: Deallusrwydd artiffisial lle mae bod dynol yn rhan o'r prosesau

"Rydym yn archwilio ac yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i hwyluso a gwella rhyngweithio rhwng pobl a pheiriannau ac i hwyluso ein prosesau gwneud penderfyniadau a chyflawni."

Mae offer deallusrwydd artiffisial yn cael ei fetio ar gyfer diogelwch, cydymffurfiaeth, uniondeb masnachol (nid yw ein data byth ar gael y tu allan i'n gardd furiog, gan gynnwys hanes, ymatebion a ffynonellau data prydlon), tryloywder a rhagfarn.

Byddwn yn creu swyddogaeth llywodraethu/achosion/mabwysiadu moeseg/diogelwch/defnydd i graffu'n rheolaidd ar ddatblygiadau deallusrwydd artiffisial ar gyfer risgiau sy'n dod i'r amlwg ac asesu'r defnydd diogel a moesegol parhaus, ac rydym yn addysgu cydweithwyr i ddeall y risgiau ac unrhyw gyfleoedd a gyflwynir gan offer o'r fath.

Yn bwysicaf oll, rhaid i'r holl benderfyniadau a allai effeithio ar ein cwsmeriaid, eu hamgylcheddau, ein cydweithwyr a'r busnes gael eu gwneud gan bobl nes bydd adnoddau deallusrwydd artiffisial wedi'u profi i gyflawni galluoedd uwch-ddynol ym mhob agwedd berthnasol o ran lefelau tryloywder sy'n cyfateb i bobl. Tan hynny (a thu hwnt os byddwn yn dewis gwneud hynny) ni fyddwn byth yn anfon penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl at beiriannau, a bydd unrhyw gyngor neu gymorth a gawn gan offer deallusrwydd artiffisial yn aros felly.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Byddwn yn fetio ac yn cymeradwyo'r holl offer deallusrwydd artiffisial yn drwyadl cyn ei ddefnyddio –** Byddwn yn rhoi proses werthuso drylwyr ar waith ar gyfer pob technoleg deallusrwydd artiffisial, gan sicrhau ei bod yn bodloni ein safonau ar gyfer diogelwch, preifatrwydd data, ystyriaethau moesegol, a lliniaru rhagfarn. Mae hyn yn cynnwys monitro parhaus i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg.
- **Sefydlu trefn lywodraethu sy'n rhoi blaenoriaeth i oruchwyliaeth gan bobl –** Byddwn yn datblygu canllawiau a pholisïau clir ar gyfer defnyddio deallusrwydd artiffisial yn foesegol, gan sicrhau bod mai pobl sy'n gwneud penderfyniadau ar allbynnau a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial a allai effeithio ar gwsmeriaid, cyd-weithwyr, neu'r sefydliad.
- **Darparu hyfforddiant cynhwysfawr i gydweithwyr ar ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial yn gyfrifol ac yn effeithiol –** Byddwn yn cynnig rhaglenni hyfforddi sy'n ymdrin â galluoedd a chyfyngiadau deallusrwydd artiffisial, y risgiau sy'n gysylltiedig â rhagfarn deallusrwydd artiffisial, a phwysigrwydd cynnal barn pobl wrth wneud penderfyniadau. Bydd yr hyfforddiant hwn yn galluogi cydweithwyr i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial fel adnodd i wella eu gwaith, ar yr un pryd â deall eu cyfrifoldebau o ran defnydd moesegol a phriodol.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Mae cydweithwyr yn dweud eu bod yn deall adnoddau deallusrwydd artiffisial yn well a'u bod yn fwy cyfforddus yn eu defnyddio.
- Mwy o ddefnydd o offer deallusrwydd artiffisial ar draws y Grŵp (amlder defnydd mewn diwrnod arferol).
- Gwella'r duedd o ran yr amser sy'n cael ei arbed wrth ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial.

## 08: Digidol yn Ddiofyn

"Ein nod yw sicrhau, lle bo hynny'n synhwyrol ac yn briodol, bod yr holl ryngweithio rhwng cwsmeriaid a'r sefydliad, a chydweithwyr a systemau mewnol, ar gael yn ddigidol yn ddiofyn."

Rydym yn parhau i gynnig rhyngweithio all-lein pan nad yw mynediad digidol yn bosibl, yn briodol nac yn berthnasol, ac rydym yn cadw rhyngweithio all-lein yr un fath â rhyngweithio digidol er mwyn cyflawni'r un canlyniadau drwy lwybrau nad ydynt yn ddigidol.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Nifer o lwybrau digidol cynhenid ar gael i gwsmeriaid sicrhau canlyniadau.
- Mae gan 90% o lwybrau nad ydynt yn ddigidol i gwsmeriaid gyflawni canlyniadau efell digidol (lle mae hynny'n bragmatig ac yn gyraeddadwy).





### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Datblygu a defnyddio llwyfannau digidol greddfol sy'n hawdd eu defnyddio ar gyfer rhyngweithio â chwsmeriaid –** Byddwn yn blaenoriaethu creu rhyngwynebau digidol sy'n hawdd eu defnyddio ac yn hygyrch i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr, ac wedi'u dylunio gyda phrofiad y defnyddiwr mewn golwg. Byddwn yn defnyddio ymchwil ac adborth defnyddwyr i fireinio ein cynigion digidol yn barhaus, gan sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ein holl randdeiliaid.
- **Darparu cymorth ac adnoddau i gwsmeriaid a chydweithwyr wrth drosglwyddo i ryngweithio digidol yn gyntaf –** Byddwn yn cynnig hyfforddiant, tiwtorialau, a dogfennau cymorth i arwain cwsmeriaid a chydweithwyr drwy ein llwyfannau digidol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod sianeli cymorth ar gael yn rhwydd i'r rheini y mae angen cymorth arnynt, a bod opsiynau eraill, nad ydynt yn ddigidol, yn dal ar gael i'r rheini nad ydynt yn gallu defnyddio ein systemau digidol.
- **Sicrhau gwasanaeth cyfartal rhwng llwybrau rhyngweithio digidol a llwybrau nad ydynt yn ddigidol –** Byddwn yn dylunio ein rhyngweithio digidol a'n rhyngweithio nad yw'n ddigidol i gyflawni'r un canlyniadau gan ddilyn yr un trywydd penderfynu. Mae hyn yn golygu sicrhau bod yr holl wybodaeth a gwasanaethau sydd ar gael drwy sianeli digidol hefyd ar gael drwy ddulliau amgen, ac i'r gwrthwyneb, er mwyn rhoi dewis a hyblygrwydd i gwsmeriaid a chydweithwyr, er mwyn iddynt allu gwneud yr hyn sydd angen iddynt ei wneud, yn y ffordd maen nhw eisiau ei wneud.

Strategaeth

# Cryfder Ariannol

## Sbarduno twf.
## Llunio'r dyfodol.



# Strategaeth Cryfder Ariannol 2026-2031

## Cyd-destun

Yn hanesyddol, mae Cymoedd i'r Arfordir wedi wynebu her o ran y buddsoddiad sydd ei angen ar ei bortffolio amrywiol o tua 6,000 o gartrefi.

Rydym yn sefydliad trosglwyddo stoc, lle mae ansawdd y cartrefi sy'n cael eu trosglwyddo o'r awdurdod lleol yn her – mae dros draean o'n cartrefi'n cael eu hadeiladu mewn terasau, sy'n adlewyrchu'r ymgyrch ar ôl y rhyfel i gynyddu nifer y cartrefi teuluol yn economaidd.

Rhagwelir y bydd angen tua £25 miliwn o fuddsoddiad i fynd i'r afael â'r materion etifeddol hyn. Mae'r diffyg cyllid gwaddoli sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddo, ynghyd â ffrydiau cyllido cyfartal, yn cynyddu'r pwysau ymhellach mewn perthynas ag ariannu'r gwelliannau sydd eu hangen i'n cartrefi.

**"Mae angen i ni sicrhau ein bod yn buddsoddi yn yr ardaloedd cywir a'n bod yn gwneud y penderfyniadau iawn ynghylch ein cartrefi i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ein buddsoddiad i ddarparu ar gyfer ein cwsmeriaid a'n cymunedau."**

Mae'n bwysig ein bod yn buddsoddi mewn ffordd sy'n sicrhau manteision i'n cwsmeriaid – gan ddarparu cartrefi a mannau lle mae cwsmeriaid yn ddiogel, yn gynnes ac yn sych, ac yn teimlo eu bod yn perthyn. Mae angen i ni fuddsoddi yn y fath fodd fel bod ein cartrefi'n ddymunol a sicrhau mai Cymoedd i'r Arfordir yw'r landlord o ddewis.

## Ein huchelgais

Mae ein Strategaeth Cryfder Ariannol yn nodi uchelgais a dull gweithredu i gynyddu ein capasiti ariannol er mwyn i ni allu cyflawni mwy ar gyfer ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr.

Drwy gael mwy o gapasiti ariannol, byddwn yn gallu buddsoddi mwy yng nghartrefi ein cwsmeriaid, a datblygu cartrefi newydd a fydd yn sicrhau bod ein holl gwsmeriaid ym Mhen-y-bont ar Ogwr a thu hwnt yn dewis cartrefi Cymoedd i'r Arfordir.

Byddwn yn meithrin ein gallu ariannol drwy greu gweledigaeth sy'n cael ei harwain gan dwf ac sy'n gadarn yn ariannol ac sydd:

- Yn canolbwyntio ar dwf
- Yn cael ei harwain gan ddatblygiad
- Yn effeithlon yn weithredol
- Yn cael ei hariannu'n briodol

Er mwyn cyflawni ein huchelgais o gynyddu ein capasiti ariannol, bydd angen i ni fabwysiadu dull deuol. Bydd angen i ni ganolbwyntio ar gynyddu ein refeniw, cynyddu'r incwm i Cymoedd i'r Arfordir, gan sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithlon ar yr un pryd, a sicrhau ein bod yn gwneud mwy o elw, gan ganiatáu i ni ailfuddsoddi elw ac arian parod sy'n cael ei gynhyrchu mewn cartrefi presennol a newydd.

Rydym eisiau sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n cwsmeriaid a'n cydweithwyr a, thrwy roi rhan ganolog i gwsmeriaid a chydweithwyr mewn penderfyniadau, rydym wedi gosod targed uchelgeisiol o ran twf a datblygiad i gynyddu'r elw ariannol i'w ail-fuddsoddi yn ein cymunedau.

Mae hyn yn dechrau drwy wrando ar ein cwsmeriaid a buddsoddi mewn blaenoriaethau a fydd yn sicrhau newid a manteision gwirioneddol i'n cymunedau.

## Ein dull gweithredu

Byddwn yn sicrhau bod ein cartrefi presennol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda drwy gael cynlluniau blaengar ar gyfer ein buddsoddiad yn ein cartrefi presennol; gan sicrhau bod ein hasedau'n cael eu hystyried ar gyfer y tymor hwy wrth edrych ar gyfleoedd i adfywio, a lle bo'n briodol, dadfuddsoddi.

Rydym eisiau bod yn 'sefydliad sy'n herio' yn y sector a gwneud pethau gwahanol ac arloesol, ac arwain gyda rheolaeth drylwyr.

Mae'n hanfodol ein bod yn agored i fusnes ac yn meddwl o ddifrif am gydweithio, a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu darparu. Bydd angen i ni feddwl am sut y gallwn ddatblygu ac ehangu y tu allan i'n hardal a datblygu presenoldeb mewn ardaloedd ehangach. Mae Cymoedd i'r Arfordir yn awyddus i ddarparu mwy o wasanaethau'n fewnol a helpu i feithrin sgiliau lleol.

Bydd arloesi a buddsoddi mewn data a thechnoleg yn allweddol i'n datblygiad fel sefydliad. Bydd angen i ni fod yn feiddgar i sicrhau bod hyn yn cefnogi ein dyheadau o ran twf.

**Mae'r Strategaeth Cryfder Ariannol yn seiliedig ar drefniadau cadarn llywodraethu ac adrodd ar berfformiad. Byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Defnyddio llais y cwsmer i ddatblygu lleoedd a chymunedau
- Canolbwyntio ar dwf a datblygu refeniw drwy arallgyfeirio ein hincwm a meddwl yn wahanol
- Bod yn sefydliad sy'n arwain y gwaith datblygu ac sy'n cydweithio ag eraill, ond sy'n awyddus i arwain ei ymdrechion
- Bod yn fasnachol ac yn effeithlon yn ariannol – sicrhau bod Gwerth am Arian, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael cryf yn ganolog i bopeth a wnawn.
- Sicrhau bod gennym y math cywir o gyllid ar gael i gyflawni ein dyheadau ar gyfer twf, cynaliadwyedd a datgarboneiddio


## Ein blaenoriaethau

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn darparu ein gwasanaethau drwy bedair blaenoriaeth i gyflawni ein huchelgais o ran twf; fe'u mabwysiadir ar draws pob rhan o Grŵp Cymoedd i'r Arfordir i sicrhau profiad cyson i'n cwsmeriaid, ein cymunedau a'n rhanddeiliaid.

Mae themâu trawsbynciol drwy'r strategaeth gyfan. Fodd bynnag, er mwyn bod yn glir, bydd ein huchelgais o ran sicrhau rhagoriaeth i gwsmeriaid yn cael ei chyflawni drwy ganolbwyntio ar y bedair blaenoriaeth ganlynol:

- Tyfu ein refeniw
- Dull gweithredu sy'n cael ei arwain gan ddatblygiad
- Effeithlonrwydd ariannol
- Cyllid

Bydd canlyniadau penodol ac elfennau i'w cyflawni yn addasu wrth i ni dyfu.





## 01: Tyfu ein refeniw

**“Er mwyn tyfu, rhaid i ni gynyddu nifer y cartrefi o safon sydd gennym ar gyfer ein cwsmeriaid ac amrywio ein ffrydiau incwm.”**

Rydym wedi ein cyfyngu o ran ein gallu i gynyddu ein refeniw drwy reoleiddio rhenti.

Felly, rhaid i unrhyw uchelgais i gynyddu ein capasiti ariannol gael ei gyflawni drwy dwf a datblygiad sy’n gyfrifol yn ariannol. Bydd angen i ni gynyddu ein huchelgais y tu hwnt i nifer y cartrefi sydd gennym ar y gweill ar hyn o bryd.

Lle mae angen i ni ddadfuddsoddi, mae angen i ni sicrhau nad ydym, dros oes ein strategaeth, yn mynd i ddiffyg net yn ein cartrefi.

Bydd angen i ni edrych ar gyfleoedd eraill i wneud hyn drwy bartneriaethau, cydweithio a mentrau ar y cyd.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Sut mae llwyddiant yn edrych:
- Cynnydd yng nghyfanswm y trosiant – % chwyddiant targed oedran wedi’i addasu
- Mwy o ffrydiau refeniw – nifer o wahanol ffrydiau
- Enillion ar fuddsoddiad i greu ffrydiau refeniw newydd
- Cyfleoedd partneriaeth wedi’u darparu ar gyfer enillion cadarnhaol
- Cwsmeriaid gwasanaethau a rennir a’r targed refeniw a gyflawnwyd

### Rydym wedi ymrwymo i’r canlynol:

- **Amrywio a chynyddu ein refeniw –** Byddwn yn edrych ar gyfleoedd i gynhyrchu refeniw ychwanegol, drwy amrywio ein ffrydiau refeniw. Byddwn yn edrych ar ble gallwn gynyddu ein henillion o fuddsoddiadau ac yn edrych ar gyfleoedd masnachol lle bo hynny’n briodol.

  Bydd angen i ni dorri traddodiadau a bod yn arloesol, gan fynd i’r afael â chyfleoedd allanol gyda meddwl agored a bod yn agored i fusnes.

- **Bod yn fasnachol –** Pan fydd gennym eiddo masnachol, bydd angen i ni sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull sy’n wirioneddol fasnachol o ran y gwerth y gellir ei gynhyrchu o eiddo o’r fath.

  Mae angen i hyn fod yn ymhlyg yn ein penderfyniadau ar gyfer unrhyw ddatblygiadau newydd rydym yn ymrwymo iddynt, neu adfywio. Mae angen i ni atgyfnerthu’r ffaith ein bod yn fasnachol gyda chalon gymdeithasol.

  Byddwn yn manteisio i’r eithaf ar fasnachadwyedd i roi cymorthdal i fusnesau’r economi sylfaenol, er mwyn cefnogi a thyfu ein cymunedau.

- **Archwilio partneriaethau –** Er mwyn creu twf, byddwn yn edrych ar sut gallwn ddefnyddio ein hasedau a’n gweithrediadau gyda phartneriaid i gynhyrchu refeniw. Mae ein cwmni atgyweirio a chynnal a chadw, Llanw, yn gallu gwneud gwaith i drydydd partïon. Efallai y bydd yn briodol i ni weithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill i edrych ar gyfleoedd lle gallwn gynhyrchu incwm naill ai drwy gyflenwi gwasanaethau neu drwy edrych ar gydweithio.

  **Byddwn yn chwilio am y math iawn o bartneriaethau:**
  - Gydag Awdurdodau Lleol: Gweithio’n agos gyda llywodraethau lleol i sicrhau bod datblygiadau tai yn cyd-fynd â nodau cymunedol ehangach, fel mynd i’r afael â digartrefedd ac adfywio cymdogaethau;
  - Gyda Chymdeithasau Tai: Cydweithio i sicrhau budd i bob parti ar yr un pryd â lleihau risg a sicrhau manteision i’n cymunedau;
  - Drwy ymgysylltu â’r gymuned: Meithrin partneriaethau â grwpiau cymunedol i lunio atebion tai sy’n diwallu anghenion lleol, gwella cydlyniant cymdeithasol a sicrhau bod datblygiadau’n cael eu gwreiddio yng ngwead y gymuned;
  - Drwy mentrau ar y cyd: Ceisio cydweithio ag endidau eraill i archwilio cyfleoedd lle mae’n briodol rhannu risg a gwobrwyon;
  - Drwy arloesi: Cydweithio â phartïon ar draws y sector a’r tu allan i’r sector i sicrhau budd ehangach i’r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

- **Darparu gwasanaethau a rennir –** Mae gennym y gallu i gynyddu ein refeniw drwy ddarparu gwasanaethau a rennir i endidau eraill, neu drwy fod yn un o’r partneriaid buddiol wrth ddarparu endidau corfforaethol gwasanaethau a rennir.

  Mae gennym arbenigedd mewnol ym maes y gyfraith a’r gyflogres (fel enghreifftiau syml), lle gallai ac y gall Cymoedd i’r Arfordir gymryd yr awenau o ran darparu gwasanaethau a rennir i’r sector yng Nghymru.

- **Archwilio uno a chaffael –** Er mwyn datblygu ein huchelgeisiau o ran twf, efallai y byddai’n briodol i Cymoedd i’r Arfordir ystyried uno â sefydliad arall. Rydym am aros yn agored i gyfleoedd a chymryd yr awenau os mai dyma’r cyfeiriad cywir i’n sefydliad sicrhau manteision clir yn ein strategaeth twf.

## 02: Dull gweithredu sy'n cael ei arwain gan ddatblygiad

**"Er mwyn cynyddu ein refeniw, bydd angen i ni fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ddatblygu."**

Bydd hyn yn golygu dull tymor hwy at actifadu'r biblinell, ac er mwyn cyflawni'r twf hwn mae angen i ni edrych ar ddechrau cyflymu nawr.

**Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:**

- **Sicrhau enillion priodol ar fuddsoddiad –** Mae angen i ni ymrwymo i'n holl ddatblygiadau gyda meincnod o'r hyn y byddwn yn ei dderbyn fel enillion priodol. Byddwn yn meddwl yn greadigol i sicrhau bod hyn yn sicrhau'r gwerth gorau i'r sefydliad yn ogystal â'r manteision cymunedol i'n cwsmeriaid.

  Mae angen i ni fod yn barod i wneud y penderfyniad anodd i beidio â bwrw ymlaen os nad yw'r enillion yn gywir, ond byddwn yn ceisio cydbwyso ein portffolio. Efallai na fydd rhai cyfleoedd strategol yn cyflawni'r hyn y byddem yn ei ystyried yn elw digon uchel, ond byddwn yn sicrhau bod rhaglenni yn eu cyfanrwydd yn parhau i ychwanegu gwerth at y busnes.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Cyfleoedd datblygu newydd wedi'u trosi
- Piblinell wedi'i monitro
- Mwy o werth net presennol safleoedd datblygu ar-lein
- Partneriaethau newydd
- Cynnydd mewn gosod/gwerthu/trosi unedau

- **Alinio â'n huchelgeisiau adfywio –** Byddwn yn alinio'n agos â'n Strategaeth Cartrefi a Chymunedau i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr asedau rydym yn berchen arnynt ar hyn o bryd ac yn gwneud y penderfyniad cywir i ddarparu'r cartrefi o'r ansawdd gorau, gan sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau masnachol cywir ar hyd y ffordd. Wrth wneud hynny, bydd gofynion cwsmeriaid, gwerth am arian ac enillion ariannol yn ystyriaethau allweddol i ni. Yn bennaf oll, bydd angen i ni fod yn fasnachol gyda chalon gymdeithasol.
- **Defnyddio'r cyfryngau corfforaethol priodol –** Byddwn yn ymgorffori is-gwmni datblygu i alluogi dull cost-effeithiol o ddatblygu yn ogystal â darparu cyfleoedd ychwanegol i ni gynnig cartrefi i'n cwsmeriaid.
- **Daliadau tir adeiladu –** Byddwn yn nodi ac yn caffael tir ar gyfer prosiectau tai yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar safleoedd bancio tir strategol sy'n cynnig y potensial ar gyfer cartrefi newydd ac yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i ddiwallu anghenion tai yn y dyfodol.
- **Datblygu mewn ffyrdd gwahanol –** Byddwn yn ystyried pob agwedd ar ddatblygu wrth dyfu ein portffolio o gwsmeriaid:
  - Adeiladau newydd: Adeiladu tai fforddiadwy newydd i ateb y galw cynyddol. Bydd yr eiddo hyn hefyd yn cael eu datblygu gan gadw cynaliadwyedd mewn cof;
  - Adnewyddu ac ailfodelu: Gwella eiddo presennol i gynyddu eu gwerth a sicrhau bod pobl yn gallu byw ynddynt;
  - Caffael: Prynu eiddo presennol, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd lle mae'r angen yn uchel, er mwyn ehangu'r portffolio;
  - Deiliadaeth gymysg – llwybr at dai, tai ar werth: Gwneud ein cymunedau'n fwy dymunol a chynyddu'r manteision i'n cwsmeriaid o gael mwy o ymdeimlad o le a chymuned;
  - Adfywio: Edrych ar ein heiddo presennol a ble mae'n iawn i adfywio'r ardaloedd hyn. Gallai hyn fod o fuddsoddi yn ein cartrefi presennol i ddymchwel a disodli.

- **Datblygu y tu allan i'n hardal leol –** Os ydym eisiau tyfu ac yn teimlo'n angerddol dros wneud gwahaniaeth i gwsmeriaid tai cymdeithasol yng Nghymru, bydd angen i ni feddwl yn ehangach na'n hardal leol bresennol, sef Pen-y-bont ar Ogwr.
- **Datblygu ar gyfer y dyfodol –** Edrych ar fuddsoddi yn ein datblygiadau yn y dyfodol i ddeall sut y gallwn, drwy fuddsoddi ymlaen llaw, leihau cost oes gyfan rheoli eiddo, drwy fuddsoddi mewn technoleg yn ein cartrefi ac edrych ar bob datblygiad o safbwynt cynaliadwyedd yn y dyfodol.

  Byddwn yn ystyried:
  - Adeiladu cartrefi carbon sero net: Ceisio adeiladu pob datblygiad newydd yn gartrefi carbon sero net, gan ddefnyddio dulliau adeiladu cynaliadwy, systemau ynni adnewyddadwy, a deunyddiau adeiladu carbon isel;
  - Adeiladu cynaliadwy arloesol: Buddsoddi mewn atebion tai ynni-effeithlon, deunyddiau adeiladu gwyrdd, a thechnolegau fel ynni'r haul, casglu dŵr glaw, a thermostatau clyfar i leihau'r ôl troed amgylcheddol;
  - Mentrau tai clyfar: Archwilio technolegau clyfar i gartrefi, fel synwyryddion 'Rhyngrwyd Pethau' (IoT), systemau cynnal a chadw rhagfynegol, a llwyfannau optimeiddio ynni sy'n cynnig profiadau byw gwell ac arbedion cost i breswylwyr;
  - Prosiectau peilot: Peidio â bod ofn profi a herio modelau a chymryd risgiau buddsoddi bwriadol i fod yn arloesol.
- **Bod yn agored i fusnes –** Rydym am gael ein hadnabod fel sefydliad sy'n cyflawni – cael ein hadnabod gan bartneriaid sy'n gallu cyflawni i'n cwsmeriaid ac yn ariannol. Byddwn yn cynnig ac yn ystyried pob agwedd ar fuddsoddiad ar yr amod ei fod yn gwneud synnwyr masnachol ac yn iawn i'n cwsmeriaid.



## 03: Effeithlonrwydd ariannol

**"Er mwyn cynyddu ein gallu ariannol, bydd rhaid i ni wella ein heffeithlonrwydd ariannol."**

Mae hyn yn golygu dau beth yn syml – cynyddu ein gwarged gweithredu a bod yn fwy cynhyrchiol o ran arian parod.

Drwy wella ein gwarged gweithredu, mae'n gyfle i ni ail-fuddsoddi yn ein cartrefi presennol a chael yr arian i wasanaethu'r benthyciadau ychwanegol sydd eu hangen i ariannu ein twf.

Mae cynhyrchu mwy o arian parod yn caniatáu i ni fuddsoddi eto mewn gwaith cyfalaf ychwanegol, boed hynny i gartrefi presennol, i wasanaethu'r benthyciadau neu ar gyfer ein buddsoddiadau newydd.

### Sut mae llwyddiant yn edrych:

- Twf mewn gorswm gweithredu
- Arbedion y contractwr
- Bod â mesurau cynhyrchiant ar waith – h.y. faint o doeau sydd wedi cael eu gosod eleni o'i gymharu â'r rhai blaenorol a'r gost fesul to
- Gostyngiad mewn pris
- Cynhyrchu mwy o werth cymdeithasol
- Cyflawni targedau penodol ar gyfer gwerth am arian, yn dibynnu ar is-gontractwyr allweddol
- Gwella targedau Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer contractwyr penodol

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata –** Byddwn yn defnyddio dadansoddeg data i ddyrannu adnoddau yn y ffordd orau bosibl, gan nodi elfennau aneffeithlon, a rhagfynegi tueddiadau'r dyfodol. Dylai data lywio penderfyniadau o ran cynnal a chadw eiddo, gwasanaeth i gwsmeriaid, a chynllunio datblygiadau.
- **Bod yn fasnachol –** Dylai ein holl benderfyniadau fod yn seiliedig ar y syniad ein bod yn gweithredu fel sefydliad masnachol sydd â chalon gymdeithasol. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn sbarduno canlyniadau masnachol ac yn mesur sut rydym yn cyflawni. Mae angen i ni osod targedau clir ar gyfer cyflawni, a byddwn yn mesur ni ein hunain a'n cyflenwyr yn eu herbyn.
- **Creu gwerth am arian –** Y newid cyntaf y mae'n rhaid i ni ei wneud yw cynyddu ein heffeithlonrwydd ariannol. Nid yw hyn yn golygu gwneud pethau'n rhad ond yn hytrach sicrhau bod gennym yr egwyddorion gwerth am arian cywir i sicrhau ein bod yn cyflawni y gorau. Mae hyn yn golygu cael ein prosesau'n gywir i sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithlon. Mae angen i ni sicrhau bod ein gwerth am arian yn anelu at ddarparu gwerth cymdeithasol.
- **Cael cynllun caffael clir –** Mae angen i ni gael cynllun caffael clir i sicrhau ein bod yn darparu'r gwerth gorau ac yn cael y canlyniadau gorau gan ein cyflenwyr a'n partneriaid. Rydym yn bwriadu sicrhau cydbwysedd rhwng caffael lleol a chael gwerth am arian. Pan fydd yn gwneud synnwyr masnachol, byddwn yn ceisio caffael o'n cymunedau lleol a bod o fudd i'r economi gylchol.
- **Datblygu cynllun rheoli asedau hirdymor –** Drwy ddatblygu cynllun rheoli asedau cynhwysfawr sy'n sicrhau hirhoedledd a phroffidioldeb y stoc tai. Mae hyn yn cynnwys gwaith cynnal a chadw, adnewyddu, a gwaredu asedau sy'n tanberfformio mewn ffordd strategol ac amserol.

Byddwn yn cymryd golwg tymor hwy ar ein gwaith rheoli asedau i sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau strategol cywir ac yn darparu gwerth ar gyfer y tymor hir.

- **Rheoli contractwyr yn gadarn –** Mae angen i ni reoli ein trefniadau caffael a'n contractwyr mewn ffordd sy'n fwy effeithiol er mwyn sicrhau gwerth go iawn. Gyda hyn, dylai fod gennym werth craidd cryf o ran sut rydym yn sicrhau gwerth cymdeithasol.
- **Rhagoriaeth prosesau a gwelliant parhaus –** Buddsoddi mewn sicrhau bod ein systemau a'n prosesau'n iawn i gyflawni manteision effeithlonrwydd. Sicrhau bod methodoleg ddarbodus yn cael ei defnyddio lle bo modd a sicrhau bod rhagoriaeth wrth galon y ffordd mae Cymoedd i'r Arfordir yn cynnal ei fusnes.
- **Buddsoddi mewn digideiddio, awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial –** Buddsoddi mewn atebion i leihau prosesau ailadroddus a chaniatáu i'n cydweithwyr ychwanegu mwy o werth ar gyfer ein cwsmeriaid – drwy ddefnyddio technoleg glyfar a deallusrwydd artiffisial, i awtomeiddio'r prosesau.

  Byddwn hefyd yn trawsnewid yn ddigidol lle rydym yn buddsoddi mewn digideiddio prosesau i symleiddio gweithrediadau, lleihau costau gweinyddol, a gwella amseroedd ymateb gwasanaeth i gwsmeriaid.



## 04: Cyllid

**"Bydd angen cyllid arnom i gyflawni pob uchelgais sydd gennym fel busnes."**

Mae angen i ni fod yn ddeniadol i'n benthycwyr felly mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym gynnig cymhellol. Mae hyn yn golygu bod gennym stori twf gadarn ond ein bod hefyd yn ystyried sut rydym yn bwriadu cyflwyno datganiad incwm deniadol. Felly mae elfennau dull gweithredu sy'n cael ei arwain gan ddatblygiad, twf refeniw ac effeithlonrwydd ariannol yn allweddol o ran dangos ein sefyllfa gadarnhaol i fenthycwyr.

Rydym yn fusnes sy'n gyfoethog o ran asedau. Mae gennym lawer o asedau felly mae sicrhau cyllid yn ein gwneud yn gynnig deniadol i fenthycwyr.

Ond mae angen i ni fod yn rhagweithiol wrth weithio gyda'r Llywodraeth i ddod o hyd i atebion i'n heriau o ran cyllid. Boed hynny drwy grantiau, benthyciadau cost isel neu gyllid oddi ar y fantolen, mae angen i ni weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddeall a defnyddio'r ffynonellau cyllid sydd ar gael.

Mae angen i ni hefyd gynllunio ymlaen llaw i fod yn barod pan ddaw atebion cyllido i'r amlwg ar fyr rybudd.

### Rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

- **Atebion arloesol –** Mae angen i ni feddwl am atebion arloesol o ran cyllid. Efallai y bydd cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i rannu risg a manteisio ar gyfleoedd. Rhaid i'r mantra o fod yn agored i fusnes fod yn rhan o'n cynlluniau cyllido.
- **Bod yn barod i ddadfuddsoddi –** Byddwn yn fodlon rhoi'r gorau i bethau os nad ydynt o fudd i'n cynlluniau tymor hwy ar gyfer cwsmeriaid a chymunedau. Bydd hyn yn cael mantais ddwbl o ryddhau arian buddsoddi a fyddai'n cael ei wario ar gartrefi a mewnlif arian o elw'r gwerthiant i fuddsoddi mewn datblygiadau newydd. Bydd angen gwneud hyn mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio'n ofalus i sicrhau nad ydym yn erydu ein refeniw nac yn effeithio ar ein cymunedau.
- **Buddsoddi mewn cynaliadwyedd –** Bydd yn rhaid i ni feddwl am ariannu buddsoddiadau mewn cynaliadwyedd, a fydd yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol os ydym am gwrdd â'r targedau gofynnol a nodir ar gyfer 2030 o ran sero net. Bydd Cymoedd i'r Arfordir yn gweithio ar draws y sector i ddod o hyd i'r atebion priodol a fydd o fantais i'n cwsmeriaid heb roi baich ychwanegol arnynt. Mae hon yn her enfawr sy'n wynebu'r sector a bydd angen dull gweithredu gwahanol i'r hyn y mae'r sector wedi arfer ei ddefnyddio.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddeall sut y gallwn ddatblygu gallu cyllido sy'n caniatáu buddsoddi mewn cartrefi ar gyfer cynaliadwyedd sy'n gweithio i'r cwsmer ac i Cymoedd i'r Arfordir. Bydd angen inni feddwl am gyfryngau ariannol newydd, nad ydynt ar y fantolen. Bydd angen inni ffurfio partneriaethau yn y sector a thu hwnt i sicrhau bod gennym y gallu i gyflawni.

- **Cynllunio ariannol gofalus –** Er mwyn datblygu ein strategaeth fuddsoddi ymhellach, bydd angen i ni adlewyrchu'r blaenoriaethau allweddol mewn cynllun ariannol canol tymor, gan amlinellu effaith a gofynion y pum mlynedd nesaf. Bydd angen i ni fodelu'r gofynion o ran refeniw, elw, cyfalaf a benthyca, nid dim ond yn y strategaeth fuddsoddi, ond gan gynnwys yr holl strategaethau allweddol.



**Sut mae llwyddiant yn edrych:**

- Gwell cymarebau cyfamod – Gerio, Rheolau aur, Yswiriant llog EBITDA
- Lleihau cyfanswm ein costau cyllid
- Gwneud y defnydd gorau posibl o gyllid cost isel (e.e. Grantiau) o'i gymharu â dyled sy'n dwyn llog (cyllid banc)
- Gwell yswiriant llog
- Ffynonellau cyllid newydd (priodol) ar waith
- Canran uwch o gartrefi'n cael eu hariannu ar gyfer gwaith ôl-osod.

valleystocoast.wales
@valleystocoast

Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast